Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio Cymru Gyfan 2015/16

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG30569 ISBN digidol: 978-1-4734-8339-2

## CYFLWYNIAD

**Lesley Griffiths AC - Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**



Mae'r ail Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan hwn yn tynnu sylw at ymdrechion parhaus Awdurdodau Cynllunio Lleol i ganlyn gwelliannau parhaus dros gyfnod adrodd mis Ebrill 2015 hyd fis Mawrth 2016

Yn ystod y cyfnod hwn, daeth Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 i rym gan wneud gwelliannau mawr i'r ffordd y mae’r system gynllunio yn cael ei gweinyddu yng Nghymru. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi parhau i gyflenwi gwasanaethau yn ystod y cyfnod pontio, wrth inni gyd-ddatblygu’r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen er mwyn gweithredu'r Ddeddf. Hoffwn ddiolch iddynt am eu cefnogaeth wrth weithredu'r newidiadau i symleiddio a moderneiddio'r system gynllunio, gan greu mwy o gyfleoedd ar yr un pryd i ddinasyddion gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy’n rhoi’r cyd-destun trosfwaol i'r system gynllunio gan helpu i gyflawni'n unol â'r nodau llesiant. Ers tro, mae datblygu cynaliadwy wedi bod yn egwyddor hollbwysig i'r system gynllunio ac mae’r newidiadau a ddaeth yn sgil Deddf Gynllunio (Cymru) yn rhoi sicrwydd deddfwriaethol i hynny.

Un o’r themâu clir sy’n ymddangos o’r adroddiadau perfformiad yw’r pwysau cynyddol ar y system gynllunio yn sgil y cyfyngiadau ar y sector cyhoeddus.

Nid oes golwg bod diwedd i’r cyfyngiadau hyn, sy’n golygu bod chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o gynyddu cydnerthedd y gwasanaeth cyhoeddus hanfodol hwn yn flaenoriaeth. Calondid yw gweld y gwaith y mae rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi’i wneud i safoni adnoddau a rhannu arbenigeddau gan greu cyfleoedd i wella’u gallu i addasu i ofynion cyfnewidiol. Mae canlyniadau positif cyd-ddysgu a rhannu gwybodaeth ac arferion, yn ogystal â pharatoi cynlluniau busnes sy’n seiliedig ar wybodaeth, yn parhau i gael sylw yn Adroddiadau Perfformiad Blynyddol Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Er hynny, mae’n amlwg bod mwy eto i’w wneud er mwyn cael system gynllunio sy’n helpu i ddarparu’r mathau o leoedd y bydd pobl am fyw a busnesau am fuddsoddi ynddynt. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wrthi’n trafod â rhanddeiliaid i archwilio'r opsiynau ar gyfer rhanbartholi’r gwasanaeth. Dylai cynllunio chwarae rhan lawn yn y trafodaethau a helpu i lunio a darparu’r gwasanaeth cynllunio cydnerth o ansawdd ar gyfer y dyfodol sydd ei angen ar Gymru.

Rwyf yn hyderus y bydd deialog a gwaith parhaus i rannu gwybodaeth rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol, yn seiliedig ar brofiadau sy'n gyffredin rhyngddynt ac a nodir yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol, yn ein galluogi i wynebu'r heriau a chyflwyno mwy o welliannau wrth gyflenwi gwasanaethau dros y blynyddoedd nesaf.

**Lesley Griffiths AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Ionawr 2017**

## 1 - Y Cyd-destun

**Adroddiadau Perfformiad Blynyddol - Cefndir**

Dyma'r ail Adroddiad ar Berfformiad Blynyddol Cymru, sydd yn trafod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Yn ogystal ag ystyried perfformiad y gwasanaeth cynllunio dros y cyfnod adrodd, mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn hefyd yn ystyried y duedd mewn perfformiad dros amser.

Nodir y sail ar gyfer yr adroddiad hwn yn yr Ymgynghoriad ar Gynllunio Cadarnhaol, a gynigiai y dylid cyflwyno cyfres o ddangosyddion perfformiad, a chyflwyno adroddiad blynyddol ar y dangosyddion hynny. Mae'r system yn cynnwys tair rhan:

- Fframwaith Perfformiad, ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad ar sail dangosyddion a thargedau y cytunwyd arnynt â rhanddeiliaid gan ddefnyddio data a gesglir yn chwarterol;

- Adroddiad Perfformiad Blynyddol, wedi'i baratoi gan awdurdodau cynllunio lleol, yn rhoi crynodeb o'u perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol, ac yn nodi meysydd lle cafwyd yr arfer gorau a chamau i'w cymryd er mwyn gwella os oedd angen; ac

- Adroddiad Perfformiad Blynyddol cronnus, wedi'i baratoi gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi darlun strategol o faterion a ffactorau cyffredin a wynebir wrth ddarparu gwasanaethau lleol ac yn disgrifio meysydd gwaith ar gyfer y dyfodol o ran cyflawni a rhannu arferion da.

Drwy lunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan, caiff Llywodraeth Cymru ddarlun clir o'r modd y mae'r gwasanaeth cynllunio yn gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r Adroddiad hefyd yn rhoi golwg gronnus o'r materion o flaen adrannau cynllunio lleol a'r pwysau ar yr adrannau hynny, ac yn galluogi darllenwyr i ddeall effaith newidiadau o ran deddfwriaeth a pholisi ar weithrediad y gwasanaeth.

Yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn, ystyrir gweithrediad yr agweddau ar wasanaethau cynllunio sy'n ymwneud â llywodraeth leol ac â Llywodraeth Cymru. Ym mis Gorffennaf 2017, bydd yn ofynnol i ymgyngoreion statudol hefyd gyflwyno adroddiadau ar eu trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r gwasanaeth cynllunio, fel sy'n ofynnol yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015. O ganlyniad i hyn, yn yr Adroddiad blynyddol nesaf ar Berfformiad Cymru Gyfan, sydd i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017, bydd yn ystyried safbwyntiau, profiadau a pherfformiad y rhanddeiliaid pwysig hyn wrth iddynt gyflwyno sylwadau ar weithrediad y gwasanaeth cynllunio yng Nghymru.

Ceir mwy o wybodaeth am y Fframwaith Perfformiad Cynllunio o'r ffynonellau canlynol:

- Ceir tabl y Fframwaith Perfformiad ar gyfer y cyfnod 2015-16 yn **Atodiad A**. Ceir mynegai o Adroddiadau Perfformiad Blynyddol Awdurdodau Cynllunio Lleol sydd wedi'u cyhoeddi yn **Atodiad B**.

- Ar ein tudalen we ar gyfer y Fframwaith Perfformiad Cynllunio nodir targedau cyfredol a'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar ar berfformiad.

- Mae ein tudalen we ar gyfer yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys y dangosyddion perfformiad a'r targedau i adrodd amdanynt, a chanllawiau ar fformat

Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a'r dull o'u cynhyrchu. Bydd hefyd yn cynnwys ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2014-15.

## 2 - Gwasanaethau Cynllunio a Gyflenwir gan Lywodraeth Cymru

**Gwaith Cyfarwyddiaeth Cynllunio Llywodraeth Cymru**

Yr hyn a hawliodd y mwyaf o sylw yng nghyfnod adrodd 2015-16 oedd cyflwyno Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, a gyflwynai welliannau o ran gweithredu'r system gynllunio yng Nghymru.

Gosodai Deddf 2015 sawl dyletswydd newydd ar gyrff sy'n cynllunio ac yn penderfynu ledled Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno diben statudol ar gyfer y system gynllunio - gweithredu'n unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, fel y nodwyd yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â gosod gofyn statudol wrth baratoi cynllun neu'n gwneud penderfyniad ar gais cynllunio i roi sylw i effaith datblygu ar y Gymraeg.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, llywio seilwaith a datblygiadau mawr i leoliadau priodol ar draws Cymru ac ysgogi cyfleoedd i fuddsoddi yn y dyfodol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y Fframwaith ac mae tîm y prosiect a strategaeth ymgysylltu wedi'u ffurfio.

Tua dwy ran o dair darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae gwaith ymgynghori helaeth wedi'i gynnal i ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth alluogi sydd ei hangen i weithredu rhai o ddarpariaethau manwl y Ddeddf. Mae hyn wedi cynnwys:

- Cyflwyno proses newydd ar gyfer gwneud cais cynllunio sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu ar **Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol**;
- Cychwyn darpariaethau sy'n ymwneud â Chynlluniau Datblygu Strategol, er mwyn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddechrau'r broses o ddynodi Ardaloedd Cynllunio Strategol a sefydlu **Paneli Cynllunio Strategol**;
- Cyflwyno pwerau i benodi a gweithredu **Cyd-fyrddau Cynllunio**;
- Y gofyniad i ddatblygwyr gynnal **ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio** â chymunedau cyn cyflwyno cais cynllunio graddfa fawr;
- Cyflwyno lefel statudol o **wasanaeth cyn ymgeisio** i ddarpar ymgeiswyr;
- Cyflwyno proses **apêl yn erbyn barnu annilys**; a
- Chyfres o newidiadau manwl i'r **broses rheoli datblygu**, mewn perthynas â phenderfynu a gorfodi.

Ceir mwy o fanylion am Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a gwaith cysylltiedig yn ein Cynllun Gweithredu Cynllunio Gadarnhaol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y polisi cynllunio cenedlaethol yn gyson â'r nodau llesiant. Er i'r system gynllunio fod yn flaenllaw ym maes datblygu cynaliadwy ers sawl blwyddyn, mae'r Ddeddf wedi'i gwneud yn ofynnol ad-drefnu polisi cenedlaethol a chyngor technegol, ac adolygu rhai agweddau. Cafodd fersiwn 8 o Bolisi Cynllunio Cymru (PPW) ei llunio i adlewyrchu'r ddyletswydd newydd hon, a'i chyhoeddi ym mis Ionawr 2016. Disgrifiwyd y newidiadau arfaethedig i'r PPW yn y Prosbectws Polisi Cynllunio.

Wrth ddiwygio Polisi Cynllunio Cymru, ystyriwyd hefyd oblygiadau'r ddyletswydd i ystyried effaith datblygiadau ar y Gymraeg, fel y nodwyd yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac mae Nodyn Cyngor Technegol 20 hefyd wrthi'n cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

Mae gwaith i gefnogi'r broses o greu Cynlluniau Datblygu Lleol wedi parhau, a mabwysiadwyd cynlluniau Caerdydd a Chastell-nedd Port Talbot ym mis Ionawr 2016. Bydd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio yn parhau i ddarparu gwasanaeth cynghori i awdurdodau cynllunio lleol sy'n dal wrthi'n gweithio ar eu cynlluniau nes eu bod yn cael eu mabwysiadu.

**Penderfyniadau cynllunio a wneir gan Lywodraeth Cymru**

| MATH O ACHOS | DANGOSYDD<br>Da - > 80<br>Gweddol - 60-80<br>Gwella - <60 | CYFAN-SYMIAU |
|---|---|---|
| Achosion Talu Costau<br>o fewn 84 o ddiwrnodiau | Achosion mewn pryd | **3 o 3** |
| | % mewn pryd | **100** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodiau | **17.7** |
| Penderfyniadau ynghylch galw ceisiadau i mewn<br>o fewn 21 o ddiwrnodiau | Achosion mewn pryd | **38 o 40** |
| | % mewn pryd | **95** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodiau | **6.6** |
| Achosion Cyfarwyddiadau Hysbysu<br>o fewn 21 o ddiwrnodiau | Achosion mewn pryd | **7 o 7** |
| | % mewn pryd | **100** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodiau | **15.8** |
| Apeliadau a Adferwyd ac Achosion a Alwyd i Mewn<br>o fewn 84 o ddiwrnodiau | Achosion mewn pryd | **5 o 8** |
| | % mewn pryd | **62** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodiau | **80.1** |
| Cadarnhau Gorchmynion Prynu Gorfodol<br>o fewn 84 o ddiwrnodiau | Achosion mewn pryd | **3 o 3** |
| | % mewn pryd | **100** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodiau | **51** |
| Ceisiadau am Sgrinio ar gyfer Asesu Effeithiau Amgylcheddol<br>o fewn 21 o ddiwrnodiau | Achosion mewn pryd | **19 o 22** |
| | % mewn pryd | **86** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodiau | **12.3** |
| Cadarnhau Caniatâd Adeilad Rhestredig a Chaniatâd Ardal Gadwraeth<br>o fewn 84 o ddiwrnodiau | Achosion mewn pryd | **28 o 30** |
| | % mewn pryd | **93** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodiau | **62.7** |
| Ceisiadau o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd<br>o fewn 112 o ddiwrnodiau | Achosion mewn pryd | **0 o 0** |
| | % mewn pryd | **Amh.** |
| | Nifer cyfartalog y diwrnodiau | **Amh.** |

**Ffig 1 - Ystadegau Perfformiad Llwyth Achosion Llywodraeth Cymru**

Daeth y Gyfarwyddiaeth Gynllunio i benderfyniad ynghylch 103 o'i 113 o achosion o fewn ei ddyddiad targed, sy'n cynrychioli canran gyfartalog o 91%. Mae'r amseroldeb ar gyfer penderfynu ar yr achosion hyn yn bodloni'r targedau a osodwyd yn fras, er ein bod yn cydnabod bod oedi wrth brosesu nifer fach o achosion cymhleth wedi cael effaith ar y sampl bach a gymerwyd o'r llwyth gwaith. Mae'n cynrychioli hefyd gyfnod digynsail o brysur i'r Gyfarwyddiaeth, sy'n deillio o roi Deddf Cynllunio (Cymru) ar waith.

Mae arferion gwell wrth gadw cofnodion wedi symleiddio'r broses ar gyfer ymdrin ag achosion, ac mae defnydd gwell o ddatrysiadau TGCh i gofnodi, prosesu a monitro achosion, gan gynnwys cynhyrchu a monitro ystadegau perfformiad, wedi sicrhau bod y data yn rhoi adlewyrchiad cywirach o berfformiad y Gyfarwyddiaeth Gynllunio dros amser. O ganlyniad hyn, cafwyd gwelliant graddol mewn perfformiad yn erbyn pob un o'r dangosyddion hyn yn ystod y flwyddyn ariannol, yn erbyn dangosyddion targed 2014-2015.

Er bod y ffigurau uchod yn dangos ymdriniaeth â 91% o achosion o fewn y targed, credwn fod lle o hyd i wella ar hyn, a byddwn yn parhau i geisio sicrhau gwelliannau pellach mewn perfformiad yn 2016-2017.

**Penderfyniadau cynllunio a wneir gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru**

| MATH O ACHOS | DANGOSYDD<br>Da - > 80<br>Gweddol - 60-80<br>Gwella - <60 | CYFANSYMIAU |
|---|---|---|
| Apeliadau cynllunio a benderfynwyd drwy'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig, i'w penderfynu o fewn 16 wythnos | Achosion wedi'u Penderfynu | 338 |
| | % mewn pryd | 94.91% |
| | Nifer cyfartalog yr wythnosau | 14.75 |
| Peilot y Gwasanaeth Apeliadau Deiliaid Tai (Ysgrifenedig) | Achosion wedi'u Penderfynu | 33 |
| | % mewn pryd | 90.90% |
| | Nifer cyfartalog yr wythnosau | 6.89 |
| Peilot y Gwasanaeth Mân Apeliadau Masnachol (Ysgrifenedig) | Achosion wedi'u Penderfynu | 1 |
| | % mewn pryd | 100% |
| | Nifer cyfartalog yr wythnosau | 4.29 |
| Apeliadau cynllunio a benderfynir drwy'r weithdrefn gwrandawiadau wedi'u penderfynu o fewn 22 o wythnosau | Achosion wedi'u Penderfynu | 67 |
| | % mewn pryd | 92.42% |
| | Nifer cyfartalog yr wythnosau | 20.84 |
| 85% o'r holl apeliadau cynllunio a benderfynir drwy'r weithdrefn ymholiadau i'w penderfynu o fewn 30 o wythnosau | Achosion wedi'u Penderfynu | 11 |
| | % mewn pryd | 100% |
| | Nifer cyfartalog yr wythnosau | 27.39 |
| 85% o'r holl apeliadau gorfodi a benderfynir drwy weithdrefn sylwadau ysgrifenedig, i'w penderfynu o fewn 30 o wythnosau | Achosion wedi'u Penderfynu | 27 |
| | % mewn pryd | 100% |
| | Nifer cyfartalog yr wythnosau | 21.05 |
| 85% o'r holl apeliadau gorfodi a benderfynir drwy'r gweithdrefnau gwrandawiad ac ymholiad i'w penderfynu o fewn 41 o wythnosau | Achosion wedi'u Penderfynu | 18 |
| | % mewn pryd | 88.89% |
| | Nifer cyfartalog yr wythnosau | 31.41 |
| Darparu Arolygydd ar gyfer ymholiadau'r CDLl yn o leiaf 90% o'r achosion ar y dyddiad a geisiwyd gan yr ACLl, ar yr amod bod y cyfnod gwrthwynebu wedi dod i ben, ac ar roi 6 mis o rybudd o leiaf | Cynlluniau a Dderbyniwyd | 3 |
| | % mewn pryd | 100% |
| | Nifer cyfartalog yr wythnosau | Amh. |
| Cyflwyno 90% o adroddiadau'r Arolygwyr ar ymholiadau ynglŷn â'+r cynllun datblygu i awdurdodau lleol yn unol â graddfeydd amser y cytunwyd arnynt o dan gytundebau lefel gwasanaeth | Cynlluniau a Adroddwyd | 2 |
| | % mewn pryd | 100% |
| | Nifer cyfartalog yr wythnosau | 62.14 |
| Ceisiadau wedi'u galw i mewn ac apeliadau wedi'u hadfer i fodloni'r amserlen a bennwyd ar gyfer cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru (7 wythnos, hyd at 8 o ddiwrnodiau ar gyfer cynnal ymholiad, cytuno ar amserlen ar gyfer achosion mwy) | Achosion wedi'u Hadrodd | 8 |
| | % mewn pryd | 100.00% |
| | Nifer cyfartalog yr wythnosau | 6.91 |

**Ffigur 2 - Ystadegau Perfformiad Llwyth Achosion Arolygiaeth Cynllunio (PINS) Cymru**

Mae Arolygiaeth Cynllunio Cymru (PINS) yn darparu gwasanaeth apeliadau cynllunio, gwaith achos ac yn archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru. Cyllidir yr Arolygiaeth gan Lywodraeth Cymru er ei bod yn annibynnol arni. Mae ei phenderfyniadau'n seiliedig ar fframwaith polisi cynllunio Cymru. Yn ogystal â chynnal lefelau gwasanaeth uchel mewn apeliadau, archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) a meysydd eraill mewn gwaith achos amgylcheddol, mae PINS wedi bod â rhan flaenllaw yn y gwaith o gyflwyno a hwyluso diwygiadau cynllunio Llywodraeth Cymru.

Ceir tua 17 o Arolygwyr PINS Cymru, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn byw yng Nghymru. Cânt eu recriwtio'n bennaf o awdurdodau cynllunio lleol Cymru. Weithiau, defnyddir Arolygwyr o Arolygaeth Gynllunio Lloegr yn ystod cyfnodau o alw mawr. Gan ei bod yn rhan o'r Arolygiaeth Cynllunio ehangach, mae PINS Cymru yn gallu manteisio ar brofiad a thrwch gwybodaeth corff mawr o weithwyr proffesiynol ym maes cynllunio ac mewn meysydd eraill cysylltiedig, ac yn gallu manteisio ar hyfforddiant i'r holl staff, gan gynnwys Arolygwyr, a chael mynediad at wasanaethau corfforaethol, fel TG.

Mae nodau strategol yr Arolygiaeth wedi'u rhestru yn ei Chynllun Strategol a phennir yr amcanion busnes allweddol penodol gan Weinidogion Cymru.

Mae'r rhain yn cynnwys targedau perfformiad sy'n ymwneud â gwaith achos 'cynllunio'. Mae cyfrifoldebau eraill yn cynnwys archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol, goruchwylio astudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai a gwaith achos ar ganiatâd adeiladau rhestredig, hawliau tramwy, ceisiadau tir comin a gorchmynion prynu gorfodol.

Parhaodd yr Arolygiaeth Gynllunio Cymru i gyrraedd targedau tynnach o 85% ar gyfer apeliadau cynllunio yn ogystal ag apeliadau gorfodi. Roedd cyfanswm y llwyth gwaith yn 2015-16 fymryn yn fwy nag yn 2014-15, sef cyfanswm o oddeutu 858 o apeliadau wedi'u derbyn o gymharu â 776 y flwyddyn flaenorol.

Cafodd Cynlluniau Datblygu Lleol Caerdydd a Chastell-nedd Port Talbot eu mabwysiadu yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd archwiliadau o gyd-gynlluniau Bro Morgannwg, Powys a Gwynedd ac Ynys Môn yn mynd rhagddynt ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn.

Ni chafwyd cwyn deg na her gyfreithiol y gellid eu cyfiawnhau yn erbyn rhagor na 99% o'r penderfyniadau a gyhoeddwyd gan arolygwyr yn ystod y flwyddyn. 99% oedd y targed ar gyfer y flwyddyn. Yn yr un modd, nid oedd camgymeriadau gweinyddol yn gysylltiedig â thros 99% o'r gwaith.

Mae nifer yr apeliadau gorfodi a chynllunio yn debygol o aros yn gyson. Mae'n debygol y gwelir effaith diwygio apeliadau cynllunio, sy'n anelu i gyflymu a symleiddio'r system gynllunio, yng ngwanwyn 2017. Mae gwaith achos amgylcheddol a mathau eraill o waith achos arbenigol yn debygol o gynyddu yn sgil deddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru.

Cyflwynir ceisiadau cynllunio am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) i Weinidogion Cymru. Gweinyddir y ceisiadau hynny gan PINS Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed statudol, sef bod yn rhaid dod i benderfyniad cyn pen 36 wythnos ar ôl dilysu cais DAC. Er mwyn i ddarpar ymgeiswyr, awdurdodau cynllunio, ymgymerwyr statudol a chymunedau fod yn barod am hyn, mae PINS Cymru wedi creu Nodiadau Cyfarwyddyd ac yn cydweithio â Chymorth Cynllunio Cymru i sicrhau bod cymunedau'n teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y broses benderfynu.

Yn ôl yr amcangyfrif cychwynnol, cyfrifwyd y gallai 3 i 4 cais DAC godi bob blwyddyn. Mae'r trothwy ar gyfer y mathau hynny o ddatblygiadau sydd yn gyson â'r diffiniad o DAC wedi newid ers llunio'r amcangyfrif, ac mae PINS Cymru yn rhagweld y gallai'r nifer hwn gynyddu. Fodd bynnag, dim ond un cais sydd wedi'i wneud yn y 9 mis cyntaf ar ôl cyflwyno'r drefn newydd. Bydd PINS Cymru yn ad-drefnu ei strwythur trefniadol cyfredol i gyd-fynd â'r llwyth gwaith, ond mae'n rhagweld y bydd angen cynyddu'r lefelau staff i gyd-fynd â'r galw hwn am y gwasanaeth os bydd nifer y ceisiadau'n cynyddu'n fwy na'r amcangyfrif.

Bu digwyddiad cyntaf Arolygaeth Gynllunio Cymru ar gyfer Rhanddeiliaid ym mis Medi 2015 yn gyfle i randdeiliaid glywed a thrafod arwyddocâd goblygiadau Deddf Gynllunio (Cymru) i bob parti yn y prosesau cynllunio, sut y bydd PINS Cymru'n ysgwyddo'i chyfrifoldebau a beth fydd dyfodol cynllunio. Daeth nifer dda ynghyd a mawr oedd eu canmoliaeth i'r digwyddiad. Cawsant glywed gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar y pryd a chynrychiolwyr diwydiant a'r gymuned.

Dangosai canlyniadau Arolwg Pobl 2015 lefel uchel o ymgysylltu ymhlith tîm Arolygiaeth Cynllunio Cymru ar y cyfan. Bydd PINS Cymru yn parhau i weithio gyda chydweithwyr i wella perfformiad er budd y busnes.

Mae uwch reolwyr yn PINS Cymru wedi cymryd rhan yn rhaglen datblygu rheolwyr yr Arolygiaeth, ac fe anogwyr yr holl staff i fanteisio ar gyrsiau ar-lein. Bu staff yn gweithio ar draws amryw o dimau yn rhannu gwybodaeth a sgiliau. Mae rheolwyr tîm wedi defnyddio dulliau hyblyg o weithio, fel polisïau Dewch â'ch Dyfais eich Hun a Gweithwyr Gartref Achlysurol.

## 3 - PERFFORMIAD AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL

Yn yr adran ganlynol, ystyrir perfformiad y 25 o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru gyda'i gilydd, yn erbyn dangosyddion a thargedau a sefydlwyd yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio, ac a gyhoeddwyd yn nhabl y Fframwaith Perfformio ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2015/16 (ynghlwm yn Atodiad A). Lle bo'n berthnasol, defnyddir siartiau i sefydlu meincnodau a chymharu cynnydd cymharol yn erbyn y dangosyddion. Rhoddir ystyriaeth fanwl i bob dangosydd perfformiad.

Yn fras, mae perfformiad yn erbyn mwyafrif y dangosyddion wedi gwella yn y cyfnod adodd hwn, o gymharu â chyfnod adrodd 2014-15. Y rheswm pennaf am hyn yw'r cynnydd wrth fabwysiadu cynlluniau datblygu, a'r ffocws newydd ar gyfer adnoddau o fewn timau presennol er mwyn sicrhau gwelliannau, ynghyd â threfniadau effeithiol a manwl gywir ar gyfer cofnodi gwybodaeth am geisiadau cynllunio.

Mae rhai Pwyllgorau Cynllunio wedi newid eu harferion cyfredol cyn i ddarpariaethau Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ynghylch Pwyllgorau a’r protocol sydd ar ddod gan Bwyllgor Cynllunio Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ddod i rym. Mae'r Pwyllgorau llai o ganlyniad i hyn, sydd wedi'u hyfforddi'n effeithiol, yn ymddangos fel pe baent yn gwneud penderfyniadau cynllunio cadarnach. Tystiolaeth o hynny yw bod llai o benderfyniadau’n mynd yn groes i gyngor swyddogion a cheir cyfradd lwyddo uwch adeg apêl .

Mae amryw o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn adrodd gwaith i foderneiddio systemau TGCh er mwyn galluogi trefniadau gweithio hyblyg, o bell ac ystwyth. Mewn sawl achos, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi comisiynu systemau TGCh ar y cyd, gan greu synergedd drwy rannu hyfforddiant ac arfer gorau. Yn sgil sefydlu consortia prynu, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru yn gallu defnyddio'u grym fel prynwyr i fynnu bod cyflenwyr meddalwedd TGCh yn bodloni anghenion penodol system gynllunio Cymru.

Yn ystod cyfnod adrodd 2014-15, adroddodd nifer fach o Awdurdodau Cynllunio Lleol eu bod wedi llwyddo i sefydlu dull "tîm datblygu" er mwyn ymdrin â cheisiadau cynllunio graddfa fawr, o'r cyfnod ymholi cyn ymgeisio hyd at fonitro amodau. Yn y cyfnod adrodd hwn, ymddengys fod yr arfer wedi dod yn gyffredin ymhlith yr Awdurdodau Cynllunio Lleol, gyda phob awdurdod unigol yn gweld budd mabwysiadu'r weithdrefn hon. Mae rhannu a gwneud defnydd cyffredin o arfer gorau yn rhywbeth sydd yn cael ei annog, ac yn dangos gwerth rhannu'r hyn a ddysgir drwy lunio Adroddiadau Perfformiad Blynyddol myfyriol.

Er bod Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi sicrhau gwelliannau yn ystod y cyfnod adrodd, mae heriau sylweddol yn bodoli o hyd. Gwelir yr un duedd yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod adrodd hwn â'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd cynt, sef pwysau cynyddol ar gyllidebau adrannau cynllunio lleol.

Er mai mater i bob Awdurdod Cynllunio Lleol yw dyraniadau cyllidebol adrannau cynllunio, dylai'r dyraniad a neilltuir i'r adran fod yn ddigon i dalu ei chostau cynnal hyd at safon sydd yn dderbyniol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Byddwn yn parhau i ymchwilio i'r berthynas rhwng ffioedd ceisiadau cynllunio a chost darparu gwasanaethau a byddwn am weithio gyda llywodraeth leol i nodi gwir gostau a buddiannau’r system.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynnydd i ffioedd cynllunio yn 2015, a chonsensws yr adborth a gafwyd yw bod y cynnydd hwn mewn incwm wedi cael ei osod yn erbyn gostyngiad yn yr

arian a ddaw oddi wrth yr awdurdodau. Nid yw incwm ffioedd fel arfer wedi cynyddu cyllideb y ddarpariaeth gwasanaeth cynllunio, gan gyfyngu ar y gallu i wella.

Mae rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi ceisio cynnal lefelau gwasanaeth ar draws yr holl feysydd cyflenwi drwy ad-drefnu swyddi neu dimau, neu drwy drosglwyddo cyfrifoldeb am waith arbenigol i swyddi cyffredinol eu natur. Er enghraifft, mae nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi creu arbedion yn sgil ymadawiad staff drwy symud gwaith gorfodi i dimau rheoli datblygu, yn hytrach na phenodi swyddogion gorfodi newydd.

Yn fwy cyffredinol, mae amryw o Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi adrodd na cheir mynediad cystal at randdeiliaid arbenigol y tu hwnt i'r maes cynllunio, fel arbenigwyr priffyrdd, cadwraeth a bioamrywiaeth, a bod hynny'n effeithio ar raddfeydd amser wrth gyflenwi'r gwasanaeth. Bydd yr arbenigwyr hyn yn gweithio weithiau y tu allan i'r timau cynllunio, ac felly'n gweithio o dan oruchwyliaeth rheolwyr, cynlluniau llwyth gwaith a chyllidebau ar wahân. Mae'n bwysig sicrhau bod yr arbenigwyr hyn yn cael cyfle i gyfrannu mewn modd effeithiol at y broses benderfynu, lle bydd materion perthnasol yn codi, a byddwn yn gwneud gwaith pellach er mwyn ymchwilio i'r mater hwn.

Er bod canran uwch o benderfyniadau'n cael eu hadrodd fel penderfyniadau a wnaed "mewn pryd", mae'r cyfnod aros cyfartalog ar gyfer penderfyniadau yn hwy nag yn 2014-15. Y rheswm am hyn yw cynnydd yn y defnydd o Gytundebau Perfformiad Cynllunio ac estyniadau cytunedig, sydd yn cynnig cyfle i reoli disgwyliadau cwsmeriaid mewn amgylchedd lle ceir llai o adnoddau.

Yn ôl yr adborth gan ymgeiswyr, ceir parodrwydd i dalu ffi uwch, ar yr amod bod gwasanaeth effeithlon yn cael ei ddarparu yn sgil hynny. Mae Cytundebau Perfformiad Cynllunio yn enwedig yn creu cyfleoedd i sicrhau adnoddau ychwanegol i gefnogi cynnydd sydyn yn y llwyth gwaith, yn enwedig yng nghyswllt ceisiadau sylweddol.

Mae rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol eisoes wedi ymateb i dirlun ariannol newidiol Llywodraeth Leol drwy alinio prosesau, gyda golwg ar sicrhau arbedion drwy effeithlonni amser. Bydd hyn yn rhyddhau amser swyddogion fel eu bod yn gallu canolbwyntio ar faterion eraill. Gellir ymestyn y gwaith hwn fel bo modd rhannu adnoddau staff. Er enghraifft, mae gwaith cynnar ar y gweill gan Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru i alinio arferion a gweithdrefnau ar gyfer gwasanaethau treftadaeth ac ecoleg. Mae grwpiau swyddogion rhanbarthol eraill hefyd yn parhau i ddatblygu a rhannu arfer da a gwybodaeth.

Mae Cydwasanaethau Mwynau a Gwastraff Sir y Fflint a Sir Gaerfyrddin y naill a'r llall yn parhau i gyfrannu arbenigedd a mewnbwn at Gynlluniau Datblygu Lleol sy'n dod i'r amlwg, a hefyd ar geisiadau cynllunio, yn eu hardaloedd perthnasol. Mae llwyddiant parhaus y model cyflenwi rhanbarthol hwn yn dempled defnyddiol ar gyfer meysydd gwasanaeth arbenigol eraill.

Mae dangosyddion y Fframwaith Perfformio ar gyfer gorfodi cynllunio yn parhau i gael eu trafod a'u hadolygu. Er bod arweiniad helaeth wedi'i roi ar gasglu a dehongli data i gefnogi'r dangosyddion, mae'n amlwg bod y dull o ddehongli'r wybodaeth yn dal i amrywio yn lleol.

Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliad yn y Gymdeithas Swyddogion Cynllunio i fireinio'r dangosyddion gorfodi a bennwyd yn y Fframwaith Perfformiad, gan gynnwys cyflwyno cynigion i ddiwygio'r dangosyddion i'w trafod yng nghynhadledd y Gymdeithas Gorfodi Cynllunio Genedlaethol ym mis Tachwedd 2016.  Gallai rhai o'r dangosyddion gorfodi newid o ganlyniad i'r gwaith parhaus hwn.

## TROSOLWG O BERFFORMIAD CYFARTALOG CYMRU YN ERBYN YR HOLL DDANGOSYDDION

Mae'r siart hon yn cymharu perfformiad cyfartalog awdurdodau cynllunio lleol Cymru yn erbyn y 18 o ddangosyddion yn y Fframwaith Perfformiad, yn y cyfnodau 2013/14 i 2015/16. Cyflwynwyd nifer o'r dangosyddion hyn ym mis Tachwedd 2014. Nid yw data cymharol ar gyfer y cyfnodau cyn hynny ar gael.


| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2014/15 | Cyfartaledd Cymru 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwneud cynllun** | | | | | | |
| 1. A oes Cynllun datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun? | Oes | | Nac ydynt | Oes | Oes | Oes |
| 2. Y gwyriad, wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd | <12 | 13-17 | 18+ | 46 | 47 | 39 |
| 3. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLl | Oes | | Nac ydynt | Oes | Oes | Oes |
| 4. Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd | 5+ | 4-4.9 | <4 | 4.7 | 4.2 | 3.9 |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | |
| 5. Canran y ceisiadau "mawr" a gafod eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | 21 | 24 | 35.3 |
| 6. Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodiau | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Dim data | 206 | 212.7 |
| 7. Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol | 80+ | 60.1-79.9 | <60 | 72.1 | 72.7 | 76.6 |
| 8. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodiau | <67 | 67-111 | 112+ | Dim data | 76.4 | 77.2 |
| **Ansawdd** | | | | | | |
| 9. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion | <5 | 5-8.9 | 9+ | Dim data | 10.1 | 9.0 |
| 10. Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod | 66+ | 55.1-65.9 | <55 | 65.4 | 65.6 | 66.5 |
| 11. Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 |

| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2014/15 | Cyfartaledd Cymru 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu** | | | | | | |
| 12. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio? | Oes | | Nac ydynt | Oes | Oes | Oes |
| 13. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd? | Oes | | Nac ydynt | Dim data | Oes | Oes |
| 14. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)? | Oes | Rhannol | Nac ydynt | Oes | Oes | Oes |
| **Gorfodi** | | | | | | |
| 15. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (penderfynu a yw rheolaeth gynllunio wedi'i thorri ac, os ydyw, penderfynu a fydd cymryd camau gorfodi o fantais) o fewn 84 o ddiwrnodiau | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Dim data | 65.8 | 79.4 |
| 16. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Dim data | 71.1 | 88.1 |
| 17. Canran yr achosion gorfodi lle cymerwyd camau gorfodi neu lle cafwyd ôl-gais o fewn 180 o ddiwrnodiau ar ôl dechrau'r achos (yn yr achosion lle'r oedd cymru camau gorfodi o fantais) | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Dim data | 76.8 | 72.8 |
| 18. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Heb ei bennu | Dim data | 175.5 | 210.1 |

## ADRAN 1 - GWNEUD CYNLLUN

| **Dangosydd** | **01. A oes Cynllun datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | | **"Angen gwella"** |
| Mae cynllun datblygu (CDLl neu CDU) yn ei le ac o fewn cyfnod y cynllun | | Nid oes cynllun datblygu yn ei le (gan gynnwys cynlluniau sydd wedi dod i ben) |

| **Perfformiad** | Oes (18 o 25) |
|---|---|





**Ffigur 1 - Awdurdodau cynllunio lleol sydd wedi mabwysiadu cynllun datblygu ym Mawrth 2016**

Mabwysiadodd CBS Castell-nedd Port Talbot a CS Caerdydd eu Cynlluniau Datblygu Lleol ym mis Ionawr 2016  O ganlyniad i hyn, roedd 18 o'r 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, a 6 o Gynlluniau Datblygu Lleol eraill yn dal heb eu mabwysiadu (mae Gwynedd ac Ynys Môn yn paratoi CDLl ar y cyd).  Mae hyn yn golygu bod 75% o Gymru wedi’i gynnwys mewn cynllun. Mae 3 chynllun arall wedi'u cyflwyno i'w harchwilio, ac os cânt eu mabwysiadu, byddai hynny'n creu cyfanswm o 21, a fyddai'n golygu bod 87% o Gymru wedi’i gynnwys mewn cynllun. Roedd yr holl gynlluniau a oedd yn weddill ar amser ar ddiwedd y cyfnod adrodd, ar sail y Cytundebau Cyflawni diweddaraf ar eu cyfer.

| Dangosydd | 02. Y gwyriad, wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **"Angen gwella"** |
| Eir i’r afael â'r CDLl o fewn 12 mis i’r dyddiadau a nodir yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol. | Eir i’r afael â’r CDLl o fewn 12 i 18 mis i’r dyddiadau a nodir ar y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol. | Eir i'r afael â'r CDLl fwy na 18 mis yn hwyrach na’r dyddiad a nodir ar y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol |


| Perfformiad | 47.4 mis |
|---|---|

Mae’n ofynnol bod pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyhoeddi Cytundeb Cyflawni, yn gynnar iawn yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol, sy’n disgrifio sut y bydd yn paratoi’r cynllun, gan gynnwys amserlen sy’n dangos y prif gamau ar gyfer cynnydd. Mae’r dangosydd hwn yn mesur llithriant oddi wrth gerrig milltir allweddol sydd wedi’u nodi yn amserlen y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol. Nid yw ond yn berthnasol i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol nad oeddent wedi mabwysiadu eu CDLl ym mis Mawrth 2016.




**Ffigur 4 - Oedi wrth baratoi CDLlau, mewn misoedd**

Er bod pum awdurdod wedi'u rhestru uchod, yn ôl y mesuriad presennol y mae oedi ar gynlluniau pedwar Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol â'u cytundebau cyflawni perthnasol. Y rheswm am hyn yw bod Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.




**Ffigur 5 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o'r oedi cyfartalog wrth baratoi CDLlau, mewn misoedd**

Mabwysiadodd CBS Castell-nedd Port Talbot a CS Caerdydd eu Cynlluniau Datblygu Lleol ym mis Ionawr 2016  Yn sgil mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd, mae'r cyfnod cyfartalog o oedi wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol wedi gostwng ymhlith yr Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny sydd yn dal i baratoi eu cynlluniau.

| **Dangosydd** | **03. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLl** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | | **"Angen gwella"** |
| Mae'n bryd llunio Adroddiad Monitro Blynyddol, ac mae un wedi'i baratoi | | Mae'n bryd llunio Adroddiad Monitro Blynyddol, ac nid oes un wedi'i baratoi mewn pryd |

| **Perfformiad** | Oes (13 o 14) |
|---|---|

Mae Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) yn ofyniad deddfwriaethol.  Y mae'n adrodd ar gynnydd wrth gyflawni nodau'r CDLl, ac yn dangos a yw strategaeth a pholisïau'r CDLl yn gweithio'n unol â'r bwriad ai peidio.  Cytunir ar y cyd-destun a'r dangosyddion ar gyfer AMB yn rhan o'r broses archwilio cyhoeddus, cyn mabwysiadu'r CDLl.  Gall tuedd negyddol yn erbyn dangosydd AMB sbarduno adolygiad rhannol neu lawn o'r CDLl.  Mae cyflwyno AMBau yn brydlon wedi bod o gymorth i gadw golwg ar effeithiolrwydd ac addasrwydd polisïau'r CDLl.

Roedd pob ACLl yr oedd yn ofynnol iddo gyflwyno AMB yn Hydref 2014 wedi gwneud hynny, ac eithrio un ohonynt.  Cyflwynodd APC Bannau Brycheiniog ei AMB ar ffurf drafft ym mis Hydref, er


nad lwyddodd i sicrhau cymeradwyaeth ei aelodau er gyfer yr AMB hyd fis Tachwedd 2015. Ceir hyd i fanylion pob AMB, a'r casgliadau y daeth pob awdurdod perthnasol iddynt, ar wefan pob awdurdod.

| **Dangosydd** | **04. Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | | **"Angen gwella"** |
| Mae gan yr awdurdod 5 mlynedd neu fwy o gyflenwad o dir ar gyfer tai | | Mae gan yr awdurdod lai na 5 mlynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tai |

| **Perfformiad** | 3.9 o flynyddoedd |
|---|---|


Mae’r system gynllunio’n gyfrifol am nodi safleoedd addas ar gyfer tai newydd drwy broses y CDLl. O dan bolisi cynllunio Llywodraeth Cymru, disgwylir i awdurdodau cynllunio lleol ddangos bod digon o dir ar gael o fewn eu hawdurdod, a bod modd defnyddio'r tir hwnnw, i adeiladu tai dros y pum mlynedd nesaf, ar sail y gofyn am dai a nodwyd yn ei CDLl. Mae’r gofyn hwn o ran polisi yn cael ei fonitro gan y Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS). Bob blwyddyn bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cynnal yr astudiaethau hyn ac yn cyhoeddi'r canfyddiadau. Ar gyfer y flwyddyn 2015-16, roedd gan wyth awdurdod gyflenwad o bum mlynedd neu fwy o dir adeiladu tai (gweler Ffigur 6, isod). Os na cheir digon o dir ar gyfer y tai, os ceir diffyg darpariaeth gan y diwydiant adeiladu tai, neu os oes diffyg amrywiaeth neu ddewis o safleoedd, gallai hynny olygu na all cynllun yr awdurdod ddangos bod cyflenwad ar gael ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Yn yr achos hwnnw, bydd angen diwygio'r cynllun. Bydd prinder yn y cyflenwad o dir ar gyfer tai ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn ystyriaeth o bwys os ceir cais am ddatblygiad tai nad yw wedi'i nodi yn y CDLl, o safbwynt yr Awdurdod Cynllunio Lleol wrth benderfynu ynglŷn â'r cais, ac os oes achos apêl. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried nodi mesurau i’r fynd i’r afael ag unrhyw ddiffyg yn y cyflenwad tir adeiladu ar gyfer tai fel rhan o’u Hadroddiadau Monitro CDLl Blynyddol.

Caiff y cyd-destun polisi cenedlaethol ei ddisgrifio yn Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 1: Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai.




**Ffigur 6 - Nifer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a chanddynt gyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd neu fwy (ar 1 Ebrill 2015)**

Dengys Ffigur 6 uchod y cyflenwad o dir ar gyfer tai ym mhob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru ar 1 Ebrill 2015. Ni all Awdurdodau Cynllunio Lleol nad ydynt wedi mabwysiadu CDLl (neu nad oes ganddynt CDU sydd yn dal yn gyfredol) gynnal Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, felly ystyrir nad oes ganddynt unrhyw gyflenwad o dir ar gyfer tai. O ganlyniad i hyn, mae pedwar Awdurdod Cynllunio Lleol yn dangos nad oes ganddynt ond 0 blwyddyn o gyflenwad o dir ar gyfer tai.




**Ffigur 7 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o'r cyflenwad cyfartalog o dir ar gyfer tai, mewn blynyddoedd**

Dengys Ffigur 7 uchod fod y cyflenwad cyfartalog o dir ar gyfer tai yn Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru wedi gostwng er cyflwyno'r Fframwaith Perfformiad yn 2014.

Mae’r cyflenwad tai fel y’i cofnodir mewn JHLASau wedi gostwng ar gyfer llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl), gan gynnwys rhai sydd newydd fabwysiadu CDLl.  Yn ôl gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (*Longitudinal viability study of the planning process* gan Arcadis (UK) Ltd), un o’r prif resymau yw bod y safleoedd sy’n cael eu neilltuo ar gyfer tai i bob pwrpas yn amhosib eu defnyddio neu ni fyddant ar gael tan tua diwedd cyfnod y CDLl. Hyfywedd oedd un o’r prif resymau am yr oedi wrth ddarparu.  Cynhwysai hynny agweddau fel y gofyn am dai fforddiadwy, safleoedd wedi’u lleoli mewn ardaloedd isel eu gwerth ar y farchnad, safleoedd o ansawdd gwael neu bod angen seilwaith penodol.  Mae’r ymchwil yn cynnig nifer o argymhellion ar gyfer datrys y problemau hyn.  Rydym wrthi’n eu hystyried.


## ADRAN 2 - EFFEITHLONRWYDD

| **Dangosydd** | **05. Canran y ceisiadau "mawr" a gafod eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **"Angen gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |

| **Perfformiad** | 35.3% |
|---|---|

Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol benderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn y cyfnodau a bennwyd mewn deddfwriaeth – 8 wythnos ar gyfer cais arferol, neu 16 wythnos ar gyfer cais a all gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd. Gall ymgeiswyr ddewis ymestyn y cyfnod hwn ac, os cytunwyd i’w ymestyn, a bod y cais yn cael ei benderfynu o fewn y cyfnod hwnnw, yna bydd y cais hwnnw hefyd wedi’i benderfynu “mewn pryd”.


Mae ceisiadau cynllunio mawr yn debygol o godi ystyriaethau technegol cymhleth sy’n galw am waith ychwanegol gan ymgeiswyr, ymgyngoreion statudol a darparwyr seilwaith; nid yw'n anarferol cymryd mwy nag 8 wythnos i wneud penderfyniadau ynghylch y ceisiadau hynny. Disgwylir i Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Lloegr, er enghraifft, wneud penderfyniad ynghylch ceisiadau o'r fath o fewn 13 wythnos.




**Ffigur 8 - Cymharu perfformiad Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio mawr**

Mae'r siart uchod yn dangos perfformiad unigol pob Awdurdod Cynllunio Lleol erbyn y dangosydd hwn. Yn ogystal â dod i benderfyniad ynghylch y nifer fwyaf o geisiadau cynllunio yn ystod y cyfnod adrodd, llwyddodd CBS Wrecsam hefyd i gyrraedd y safon uchaf ond un ar gyfer

penderfynu ynghylch y ceisiadau hynny "mewn pryd". Mae sawl Awdurdod Cynllunio Lleol arall hefyd wedi dangos gwelliant mewn perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Yn wahanol i'r flwyddyn gynt, mae awdurdodau sy'n perfformio'n dda fel arfer yn ymdrin â mwy o geisiadau cynllunio mawr nag awdurdodau eraill, ac mae'r rhai nad ydynt yn perfformio gystal fel arfer yn derbyn llai o geisiadau cynllunio mawr.




**Ffigur 9 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o'r ganran o geisiadau cynllunio mawr y gwneir penderfyniad yn eu cylch "mewn pryd"**

Dengys y gymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf yn Ffigur 9 fod perfformiad yn gwella ledled Cymru yn erbyn y dangosydd hwn. Fodd bynnag, mae'r data perfformiad ar gyfer Dangosyddion 06, a adroddir isod, yn dangos cynnydd, sef 6.7 diwrnod, yn yr amser a gymerwyd i benderfynu ynghylch ceisiadau mawr.

Yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2014-15, adroddodd rhai awdurdodau fod cyflwyno model "tîm datblygu", sy'n dod ag amryw o adrannau o fewn awdurdod ynghyd i weithio ar brosiect, wedi bod o gymorth i brosesu ceisiadau mawr yn rhwydd. Mae llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi adrodd iddynt fabwysiadu model "tîm datblygu" er mwyn prosesu a phenderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio mawr yn eu Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol 2015-16.

Cyflwynwyd dwy weithdrefn newydd yn sgil Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Rhagwelir y bydd y rhain yn cael effaith sylweddol ar y dull o ymdrin â cheisiadau cynllunio mawr yn y dyfodol. Ar gyfer ceisiadau mawr, mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio, fydd yn galluogi datblygwyr i ganfod unrhyw wrthwynebiadau posibl, ac ystyried y materion hyn cyn cyflwyno eu ceisiadau.


Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol bellach ddarparu gwasanaeth sylfaenol statudol yn y cyfnod cyn ymgeisio.

Daeth gofynion newydd y gwasanaeth cyn-ymgeisio statudol i rym ym mis Mawrth 2016, a daeth y ddyletswydd newydd ar ddatblygwyr i gynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio yn weithredol o fis Awst

2016. Rydym yn disgwyl i'r naill newid a'r llall hefyd gael effaith gadarnhaol ar yr amser a gymerir i benderfynu ynghylch ceisiadau mawr yn y dyfodol.


| **Dangosydd** | **06. Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodiau** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **"Angen gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |

| **Perfformiad** | 212.7 o ddiwrnodiau |
|---|---|




**Ffigur 10 - Cymharu amser cyfartalog a gymerir i benderfynu ar geisiadau cynllunio mawr**

Mae Ffigur 10 uchod yn dangos yr amser cyfartalog a gymerwyd i ddod i benderfyniad ynghylch ceisiadau cynllunio mawr ym mhob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r amser cyfartalog a gymerwyd i ddod i benderfyniad ynghylch ceisiadau fel hyn wedi cynyddu ym mhob Awdurdod Cynllunio Lleol. Er enghraifft, y cyfnod byrraf cyfartalog a gymerwyd gan Awdurdod Cynllunio Lleol yn y cyfnod hwn oedd 107.75 o ddyddiau; mae hyn fwy na dwbl yr amser byrraf cyfartalog yn 2014-15, sef 52.5 o ddyddiau.





**Ffigur 11 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o'r amser cyfartalog a gymerir i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio mawr, mewn diwrnodiau**

Mae'r cynnydd yng nghanran y ceisiadau y penderfynir yn eu cylch "mewn pryd" a'r amser gwirioneddol a gymerir i wneud penderfyniad ynghylch ceisiadau wedi'i briodoli i ddefnydd mwy effeithiol o Gytundebau Perfformiad Cynllunio ac estyniadau cytunedig, a newidiadau i'r dull o adrodd ar ddyddiadau penderfynu drwy'r Arolwg Rheoli Datblygu Chwarterol.

Mae Cytundebau Perfformiad Cynllunio ac estyniadau cytunedig yn caniatáu ar gyfer ffrâm amser hirach ar gyfer penderfynu ar geisiadau mawr sydd hefyd yn dderbyniol gan ymgeiswyr. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn adrodd bod ymgeiswyr yn barod i aros am gyfnod hirach er mwyn cael penderfyniadau ynghylch ceisiadau, am eu bod yn tybio bod y penderfyniadau hynny o ansawdd gwell.


| **Dangosydd** | **07. Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Gwneir penderfyniad ynghylch dros 80% o geisiadau o fewn y cyfnod statudol o amser | Gwneir penderfyniad ynghylch rhwng 60% ac 80% o geisiadau o fewn y cyfnod statudol o amser | Gwneir penderfyniad ynghylch llai na 60% o geisiadau o fewn y cyfnod statudol o amser |

| **Perfformiad** | 76.7% |
|---|---|




**Ffigur 12 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o'r holl geisiadau cynllunio y gwnaed penderfyniad yn eu cylch "mewn pryd"**

Ym mlwyddyn ariannol 2015/16, cafodd 19,631 o'r 25,247 o geisiadau cynllunio y gwnaed penderfyniad yn eu cylch eu penderfynu o fewn y cyfnod statudol o amser; sef cyfradd o 76.6%. Dyma welliant parhaus o'i gymharu â'r blynyddoedd cynt, ac mae'n golygu cynnydd at gyrraedd y safon "dda", sef penderfynu 80% o'r holl geisiadau cynllunio yng Nghymru "mewn pryd".




**Ffigur 13 - Cymhariaeth o berfformiad Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth benderfynu ynghylch pob penderfyniad cynllunio**

Mae perfformiad awdurdodau cynllunio lleol unigol yn erbyn y safon hon yn parhau i wella, gyda naw o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ennill y safon "dda" erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a chynnydd o bedwar o gymharu â'r flwyddyn gynt. Mae 3 Awdurdod Cynllunio Lleol arall o fewn dau y cant i ennill y safon "dda". Mae CS Ceredigion wedi gwella'n sylweddol o gymharu â'i fand perfformio "gwael" yn y flwyddyn gynt, ac wedi symud ymhell i'r band "gweddol", gan wneud penderfyniad ynghylch 63.9% o geisiadau "mewn pryd".

Mae CS Powys wedi disgyn i ben uchaf y band "gwael", gan wneud penderfyniad ynghylch 58.6% o geisiadau cynllunio "mewn pryd". Fodd bynnag, adroddodd CS Powys welliannau sylweddol mewn perfformiad yn y maes hwn yn chwarter olaf 2015-16, gan benderfynu ynghylch 84% o geisiadau "mewn pryd" yn y cyfnod o fis Ionawr i fis Mawrth.


| **Dangosydd** | **08. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodiau** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **"Angen gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |

| **Perfformiad** | 77.2 o ddiwrnodiau |
|---|---|




**Ffigur 14 - Cymharu’r amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio mawr**

Dengys Ffigur 14 uchod gymhariaeth o gyflymder penderfyniadau ar gyfer pob math o gais.




**Ffigur 15 - Cymhariaeth o'r nall flwyddyn i'r nesaf o'r amser cyfartalog a gymerir i benderfynu ynghylch pob cais cynllunio, mewn diwrnodiau**

Yng Nghymru, gwneir penderfyniad ynghylch ceisiadau ymhen 77.2 o ddiwrnodiau ar gyfartaledd.

Wrth baratoi ceisiadau er mwyn gwneud penderfyniad yn eu cylch, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ddibynnol ar fewnbwn cydweithwyr sydd yn arbenigol mewn meysydd technegol. Mae hyn yn cynnwys cydweithwyr mewnol fel swyddogion priffyrdd, bioamrywiaeth a threftadaeth, yn ogystal â sefydliadau allanol fel Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Mae llywodraeth leol wedi gorfod sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn ymateb i ostyngiad yn y gyllideb yn sgil toriadau'r sector cyhoeddus. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol bellach yn adrodd bod hyn wedi amharu ar fynediad at yr arbenigedd hwn, sydd yn ei dro yn golygu oedi cyn derbyn cyngor deallus ynghylch ceisiadau cynllunio ac yn cynyddu'r amser a gymerir i gyhoeddi penderfyniadau cynllunio. Mater i bob Awdurdod Lleol yw sicrhau adnoddau ar gyfer y rolau arbenigol hyn, er y byddem yn disgwyl i'r arbenigeddau hynny fod ar gael i ateb y galw perthnasol.


Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar rai ymgyngoreion statudol i roi ymateb sylweddol pan fydd eraill yn ymgynghori â hwy ar geisiadau cynllunio. Bydd yn ofynnol i'r ymgyngoreion hynny hefyd, o fis Gorffennaf 2017, adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad yn erbyn y gofyniad hwn. Byddwn yn ystyried effaith ymgyngoreion statudol ar brydlondeb penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol nesaf.

## ADRAN 3 - ANSAWDD

| Dangosydd | 09. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |


| Perfformiad | 9.0% |
|---|---|

Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol benderfynu ynghylch ceisiadau yn unol â pholisïau perthnasol y cynllun datblygu oni cheir ystyriaethau o bwys sydd yn peri iddynt benderfynu fel arall. Gan hynny, dylai unrhyw weithred o fynd yn groes i'r polisïau hynny wrth benderfynu ynghylch ceisiadau fod yn gymharol anfynych. Os gwneir penderfyniad ynghylch cais sydd yn groes i bolisïau'r cynllun, dylid nodi rhesymau cynllunio clir wrth hysbysu am y penderfyniad, gan roi cyfiawnhad dros wyro oddi wrth y cynllun.





**Ffigur 16 - Canran y penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a oedd yn groes i gyngor swyddogion**

Mae Ffigur 16 uchod yn dangos cymhariaeth o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a wnaed gan y Pwyllgor Cynllunio yn groes i gyngor swyddogion cynllunio, fel canran o'r holl geisiadau cynllunio y mae'r Pwyllgor Cynllunio wedi gwneud penderfyniad yn eu cylch. Yn debyg i'r llynedd, ceir dau allanolyn sylweddol sydd yn llurgunio cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn.




**Ffigur 17 - Cymhariaeth o’r naill flwyddyn i'r nesaf o ganran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion**

Er bod cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn dal yn y band "angen gwella", mae cyfran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion wedi gostwng.  Disgwylir i'r newid cadarnhaol hwn barhau yn y blynyddoedd nesaf.




**Ffigur 18 - Cymhariaeth o nifer y penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a wnaed yn groes i gyngor swyddogion a chyfanswm y penderfyniadau gan Bwyllgor.**


Mae Ffigur 18 uchod yn cymharu nifer y penderfyniadau a wnaed yn groes i gyngor swyddogion a chyfanswm y penderfyniadau gan Bwyllgor.  Mae'r ddau Awdurdod Cynllunio Lleol lle cafwyd y nifer fwyaf o benderfyniadau a oedd yn groes i gyngor swyddogion hefyd yn gwneud nifer cymharol fach o benderfyniadau yn y Pwyllgor. Er hynny, nid oes unrhyw berthynas i'w gweld rhwng nifer y penderfyniadau a wneir gan Bwyllgor a nifer, neu gyfran, yr argymhellion gan swyddogion y bydd y Pwyllgor yn mynd yn groes iddynt.

Dengys adborth o Adroddiadau Perfformiad Blynyddol, mewn achosion lle lleihawyd maint Pwyllgorau Cynllunio, fod y Pwyllgorau Cynllunio llai, sydd wedi'u hyfforddi'n well, yn fwy tebygol o wneud penderfyniadau'n seiliedig ar ystyriaethau polisi cryf, ac felly'n unol â chyngor swyddogion.

Yn flaenorol, adroddodd amryw o Awdurdodau Cynllunio Lleol fod gweithredu cyfnod i "gnoi cil" yn dilyn penderfyniadau a wneir yn groes i gyngor swyddogion o fudd er mwyn sicrhau bod rhesymau cynllunio dilys dros wneud hynny.

| **Dangosydd** | **10. Canran yr apeliadau a wrthodwyd** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **"Angen gwella"** |
| Cafodd dros 66% (deuparth) o'r penderfyniadau cynllunio eu hamddiffyn yn llwyddiannus ar apêl | Cafodd rhwng 55% a 66% o'r penderfyniadau cynllunio eu hamddiffyn yn llwyddiannus ar apêl | Cafodd llai na 55% o'r penderfyniadau cynllunio eu hamddiffyn yn llwyddiannus ar apêl |


| **Perfformiad** | 66.5% |
|---|---|




**Ffigur 19 - Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd**

Dengys y siart yn Ffigur 19 berfformiad cymharol pob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru ar apêl. Mae'r cyfartaledd ledled Cymru ar gyfer y cyfnod adrodd fymryn yn uwch na'r trothwy o fewn y band perfformiad "da".


Fel y blynyddoedd cynt, derbynnir y gallai maint bach y sampl lurgunio'r perfformiad a adroddwyd gan rai Awdurdodau Cynllunio Lleol llai. Er enghraifft, gwnaed tri phenderfyniad ar apêl yn y cyfnod adrodd yn APC Bannau Brycheiniog, a chefnogwyd pob un o'r apeliadau hynny.




**Ffigur 20 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o'r ganran o apeliadau cynllunio a wrthodwyd**

Dengys y siart uchod fod cyfanswm o 326 o 497 o apeliadau wedi'u gwrthod yn 2014/15, sef cyfartaledd o 65.6% - fymryn yn is na'r band "da". Mae hyn hefyd yn dangos y mymryn lleiaf o welliant o gymharu â 65.4% yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r siart wedi'i mynegeio yn ôl canran yr apeliadau a wrthodwyd, gyda'r ganran uchaf ar y chwith a'r ganran isaf ar y dde. Er hynny, rydym yn cydnabod yn achos rhai awdurdodau, mai nifer fach iawn o apeliadau y gwneir penderfyniad yn eu cylch, ac mae hynny'n golygu bod nifer fach iawn apeliadau yn gallu cael effaith anghymesur ar berfformiad yn erbyn y dangosydd hwn.





**Ffigur 21 - Cymharu nifer y penderfyniadau i wrthod caniatâd a wrthdrowyd a'r apeliadau a wrthodwyd**

Nid yw'n bosibl creu cyswllt uniongyrchol rhwng penderfyniadau cynllunio a wnaed yn groes i gyngor swyddogion ac apeliadau cynllunio dilynol.  Fodd bynnag, mae'r gostyngiad mewn penderfyniadau a wneir yn groes i gyngor swyddogion yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol â pholisi'r cynllun datblygu, sef y brif ystyriaeth mewn unrhyw apêl cynllunio.  Disgwylir hefyd y bydd unrhyw ostyngiadau pellach mewn penderfyniadau sydd yn groes i gyngor swyddogion yn arwain at gynnydd yn y duedd ar draws Cymru i wella canran yr apeliadau a wrthodir.

| **Dangosydd** | **11. Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Nid yw'r awdurdod wedi gorfod talu costau unrhyw apêl yn ei erbyn | Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau un apêl yn ei erbyn | Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau dau neu fwy o apeliadau yn ei erbyn |


| **Perfformiad** | 0 apêl (20 o 25) |
|---|---|

Yn ystod apêl, bydd yr apelydd a'r awdurdod perthnasol yn cael cyfle i geisio adennill costau'r broses apelio os ydyn nhw'n credu bod y parti arall wedi ymddwyn yn afresymol. Mae'r costau'n cynnwys y gwaith a'r ymdrech yr oedd eu hangen i ddod â'r achos i apêl – gall hyn gynnwys yr amser a'r costau ar gyfer rhoi tystiolaeth gan swyddogion neu asiantau.




**Ffigur 22 - Nifer yr achosion lle penderfynwyd bod yr awdurdod cynllunio lleol yn gorfod talu costau mewn apêl**

Mae Ffigur 22 uchod yn dangos mai dim ond mewn saith achos y penderfynwyd bod awdurdodau cynllunio lleol yn gorfod talu costau'r apêl - er bod dau awdurdod wedi gorfod talu costau mewn dau achos. Nid oedd 20 o 25 o awdurdodau wedi gofod talu costau mewn apêl, ac mae hyn yn ganlyniad llwyddiannus ar sail y dangosydd hwn.




**Ffigur 23 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o nifer yr achosion lle penderfynwyd bod yr awdurdod cynllunio lleol yn gorfod talu costau mewn apêl**

O gymharu o'r naill flwyddyn i'r nesaf, gwelir bod y cynnydd a gafwyd yn erbyn y dangosydd hwn y llynedd wedi cael ei gynnal.  Er bod un achos yn ychwanegol at gyfanswm yr achosion lle ysgwyddwyd costau, mae'r nifer yn parhau i fod yn isel o gymharu ag ystadegau cyfnod adrodd 2013-14, ac yn isel yn gyffredinol.  Mae hyn yn galonogol, gan fod penderfyniad i orfodi Awdurdod Cynllunio Lleol i dalu costau yn dangos afresymolrwydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wrth wrthod caniatâd.


Yn ôl rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol mae rhoi adborth i'r Aelodau ar achosion lle talwyd costau, yn rhan o "ymarfer gwersi a ddysgwyd", wedi llwyddo i annog y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i sicrhau bod y penderfyniadau hynny'n dryloyw a bod modd eu hamddiffyn.

## ADRAN 4 - YMGYSYLLTU

| Dangosydd | 12. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio? | |
|---|---|---|
| **“Da”** | | **"Angen gwella"** |
| Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio | | Nid yw aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio |

| Perfformiad | Ydyw (24 o 25) |
|---|---|

Mae penderfyniadau cynllunio’n cael eu gwneud gan Awdurdodau Cynllunio Lleol er y budd ehangach y cyhoedd. Er mwyn i'r system gynllunio weithredu'n effeithiol yng Nghymru mae angen dangos bod penderfyniadau'n cael eu gwneud i'r perwyl hwn. Drwy alluogi aelodau o'r gymuned y mae penderfyniadau'n effeithio arnynt i gael cyrchu a chymryd rhan yn y broses benderfynu yn creu mwy o hyder ynddynt yn y broses honno. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyfle i aelodau o'r cyhoedd siarad mewn Pwyllgorau Cynllunio, gan roi gwybod i Aelodau beth yw eu barn am benderfyniadau pan fyddan nhw ar fin cael eu gwneud.




**Ffigur 24 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o nifer yr awdurdodau sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio**


Bellach, CBS Merthyr Tudful yw'r unig Awdurdod Cynllunio Lleol nad yw'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch ei Bwyllgor Cynllunio. Cynhaliodd y Cyngor weithdy i Aelodau yn ystod y cyfnod adrodd, er mwyn llunio ymateb i ymgynghoriad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Brotocol Pwyllgorau Cynllunio. Yn y gweithdy hwnnw, roedd Aelodau'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddor o roi hawl i'r cyhoedd siarad yn y Pwyllgor Cynllunio.

Nid yw'r cytundeb hwn wedi'i weithredu eto, er y disgwylir y bydd hynny'n digwydd yn 2017 o ganlyniad i'r Protocol Pwyllgorau. O hynny allan, bydd holl Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru yn caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio.

| Dangosydd | 13. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd? | |
|---|---|---|
| **"Da"** | | **"Angen gwella"** |
| Gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am gyngor gan swyddog cynllunio ar ddyletswydd | | Nid oes swyddog cynllunio ar ddyletswydd ar gael |

| **Perfformiad** | Oes (22 o 25) |
|---|---|

Mae llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cynnig gwasanaeth "swyddog ar ddyletswydd", y gall aelodau o'r cyhoedd ei ddefnyddio i gysylltu â swyddog penodol drwy gydol y diwrnod gwaith er mwyn datrys ymholiadau ynghylch materion cynllunio neu gael cyngor ynghylch cynigion datblygu ac ystyriaethau polisi tebygol. Mewn achosion mwy cymhleth neu achosion graddfa fwy, ceir cyfeirio ymholiadau cyn ymgeisio i'r gwasanaethau cyn ymgeisio statudol neu anstatudol mwy ffurfiol.




**Ffigur 25 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o nifer yr awdurdodau sy'n darparu gwasanaeth "swyddog ar ddyletswydd"**

Mae Ffigur 25 yn dangos na chafwyd unrhyw newid yn nifer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n darparu gwasanaeth "swyddog ar ddyletswydd" dros gyfnod o dair blynedd. Mae pob un o'r tri Awdurdod Cynllunio lleol sy'n weddill nad ydynt yn cynnig y gwasanaeth hwn wedi ystyried yr angen am y gwasanaeth, ac wedi penderfynu peidio â'i ddarparu ar sail ei amgylchiadau ei hun.


Yn achos CBS Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Gwynedd, mae'r naill gyngor a'r llall wedi symud y swyddogaeth hon sy'n wynebu'r cyhoedd i dîm gwasanaeth cwsmeriaid corfforaethol ehangach, yn rhan o waith ad-drefnu o fewn y Cyngor. Yn y cyfamser, mae CS Ceredigion yn adrodd ei fod wedi

canolbwyntio ar ymdrin â cheisiadau cynllunio yn rhan o'i ymdrechion i wella perfformiad gwasanaethau.

| **Dangosydd** | **14. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **"Angen gwella"** |
| Mae pob dogfen ar gael ar-lein | Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein, a rhaid gofyn yn uniongyrchol am gael gweld dogfennau eraill | Ni chyhoeddir gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar-lein |

| **Perfformiad** | Oes (20 o 25) |
|---|---|

Mae'r gallu i gyrchu ceisiadau cynllunio a dogfennau ategol ar y rhyngrwyd yn cynyddu cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses benderfynu, yn enwedig ymhlith rhai nad ydynt yn gallu mynd i swyddfeydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol, oherwydd cyfyngiadau ar fynediad, y gallu i deithio neu ymrwymiadau eraill sy'n hawlio amser. Mae llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn defnyddio systemau TGCh a all gyhoeddi ffeiliau ceisiadau cynllunio a chynnwys cysylltiedig yn uniongyrchol ar wefan yr awdurdod.




**Ffigur 26 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o awdurdodau sy'n cyhoeddi gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar eu gwefan**


Dengys Ffigur 26 fod 20 o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn darparu mynediad llawn at ffeiliau ceisiadau cynllunio ar eu gwefan. O'r 5 sy'n weddill, mae 2 yn darparu rhywfaint o wybodaeth am geisiadau cynllunio a 3 heb ddarparu unrhyw fanylion o gwbl. Ni chafwyd unrhyw newid yn hyn o beth dros y tri chyfnod adnodd blaenorol, er bod CBS Torfaen bellach wedi comisiynu gwasanaeth newydd ar y we. Mae'r pedwar Awdurdod Cynllunio Lleol sydd yn weddill oll yn archwilio opsiynau ar gyfer darparu adnoddau ar gyfer gwasanaeth tebyg, yn amodol ar gyfyngiadau ariannol lleol.

## ADRAN 5 - GORFODI

| Dangosydd | 15. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (penderfynu a yw rheolaeth gynllunio wedi'i thorri ac, os ydyw, penderfynu a fydd cymryd camau gorfodi o fantais) o fewn 84 o ddiwrnodau | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **"Angen gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |


| **Perfformiad** | 79.4% |
|---|---|

Gall trydydd partïon ddisgwyl ymchwiliad i honiadau o dorri rheolaeth gynllunio o fewn cyfnod rhesymol o amser. Mae'r targed o 84 diwrnod neu 12 wythnos wedi'i gytuno'n rhesymol gan Awdurdodau Cynllunio Lleol. Dylai'r Awdurdodau hynny ddisgwyl ymateb i gynifer o gwynion ag sy'n bosibl o fewn y cyfnod hwn.




**Ffig 27 - Canran y cwynion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 o ddiwrnodau**

Dengys Ffigur 27 uchod berfformiad Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol yn erbyn y dangosydd hwn. Mae 17 o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn bodloni'r band "da" yn rhwydd a thri arall fymryn yn is na'r targed o 80%. Ceir tri allanolyn amlwg ar gyfer perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn, ac nid yw CS Caerdydd wedi cyflenwi data ar gyfer y cyfnod adrodd, er ei fod bellach wedi cyflwyno camau i gasglu ac adrodd ar y data hwn. O gynnwys data CS Caerdydd yng nghyfartaledd Cymru, bydd perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn codi'n uwch nag 80%.




**Ffigur 28 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o'r ganran o achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 o ddiwrnodau**


Mae'r siart uchod yn dangos bod ymchwiliad yn cael ei gynnal, ym mwyafrif yr achosion (79.4%), i gwynion ynghylch torri rheolaeth gynllunio o fewn y dyddiad targed o 84 diwrnod. Er nad yw perfformiad wedi'i rannu'n fandiau, ystyrir bod y perfformiad cyfredol yn agos at safon "dda" ledled Cymru.

Dylid croesawu'r cynnydd cyffredinol yn gysylltiedig â'r dangosydd hwn dros 12 mis, yn enwedig ar adeg lle ceir cyfyngiadau ar arian. Fodd bynnag, gellir priodoli hyn i raddau i drefniadau mwy effeithiol ar gyfer adrodd data.

| **Dangosydd** | **16. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi** | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **"Angen gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |


| **Perfformiad** | 88.1 o ddiwrnodiau |
|---|---|

Pwrpas y dangosydd hwn yw cymharu perfformiad awdurdodau yn erbyn y raddfa amser 84 diwrnod ar gyfer ymchwilio i achosion gorfodi, fel yr adroddwyd uchod.




**Ffigur 29 - Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ymchwilio i achosion gorfodi**

Dengys Ffigur 29 uchod gymhariaeth o'r amserau cyfartalog er mwyn ymchwilio i achosion gorfodi. Ceir dau allanolyn amlwg iawn yn y siart gymharol hon, sydd yn llurgunio perfformiad cyfartalog Cymru yn erbyn y dangosydd hwn i raddau sylweddol. Mae'r ddau yn adrodd eu bod wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ymdrin ag ôl-groniad o hen achosion gorfodi yn ystod y cyfnod adrodd.




**Ffigur 30 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o'r amser cyfartalog a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodi, mewn diwrnodiau**


Yn ôl Ffigur 30 mae canran yr achosion yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod wedi cynyddu, ond mae'r amser cyfartalog a gymerwyd i ymchwilio i achosion hefyd wedi cynyddu. Fel Ffigur 29,

mae allanolion eithafol wedi cael effaith anghymesur ar gyfartaledd Cymru yn y dangosydd hwn. Mae CS Powys, er enghraifft, yn adrodd amser cyfartalog o 451 o ddiwrnodiau ar gyfer ymchwilio i gwynion gorfodi; priodolir hyn i rai achosion gorfodi sy'n bodoli ers tro a ddatryswyd yn ystod y cyfnod adrodd. Rydym yn disgwyl i adroddiadau Cynghorau Sir Powys a Sir Benfro ar berfformiad fod yn llawer mwy cyson â'u cymheiriaid yn y cyfnod adrodd nesaf.

| **Dangosydd** | **17. Canran yr achosion gorfodi lle cymerwyd camau gorfodi neu lle cafwyd ôl-gais o fewn 180 o ddiwrnodiau ar ôl dechrau'r achos (yn yr achosion lle'r oedd cymru camau gorfodi o fantais)** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |

| **Perfformiad** | 72.8% |
|---|---|


Gall y datblygwr ymestyn yr amser gymerir i gymryd camau gorfodi i raddau sylweddol, a hynny drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Yn ôl Awdurdodau Cynllunio Lleol, nid oes ganddynt unrhyw reolaeth na pherchnogaeth dros eu perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn mewn rhai achosion, yn sgil yr amgylchiadau hynny. Gan mai mesur perfformiad Awdurdodau Cynllunio Lleol y dylai'r dangosydd ei wneud, rydym wedi cytuno y dylid rhoi ystyriaeth bellach i addasrwydd y dangosydd.




**Ffigur 31 - canran y cwynion gorfodi a ddatryswyd o fewn 180 o ddiwrnodiau**

Yn y cyfamser, mae adroddiadau perfformiad Awdurdodau Cynllunio Lleol yn erbyn y dangosydd yn amrywio'n sylweddol, fel y dangosir yn Ffigur 31 uchod. Fel Dangosyddion 15 ac 16, mae

Awdurdodau Cynllunio Lleol sydd wedi dewis lleihau eu timau gorfodi mewn ymateb i bwysau ar y gyllideb fel arfer wedi perfformio'n waelach nag eraill. Mae hyn yn dangos gwerth cael tîm gorfodi hyfforddedig a phrofiadol.





**Ffigur 32 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o'r ganran o achosion gorfodi a ddatryswyd o fewn 180 o ddiwrnodiau**

Mae'r siart uchod yn dangos y cymerir camau o fewn 180 o ddiwrnodiau yng nghyswllt 76.8% o achosion gorfodi lle mae angen gweithredu.  Mae hyn yn ostyngiad o 4% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a hefyd yn amlygu'r modd y cafodd tasgau gorfodi eu symud i dimau rheoli datblygu craidd.

| Dangosydd | 18. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |


| Perfformiad | 210.1 o ddiwrnodiau |
|---|---|

Mae'r dangosydd hwn yn dangos yr amser cyfartalog a gymerir i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddatrys cwynion gorfodi, fel y'u disgrifir yn Nangosydd 17.




**Ffigur 33 - Amser cyfartalog a gymerwyd i ddatrys achosion gorfodi**

Fel Dangosydd 16, nid yw CS Caerdydd wedi darparu dyddiad ar gyfer y cyfnod adrodd, er bod y Cyngor yn bwriadu gwneud hynny ar gyfer y cyfnodau adrodd nesaf. Mae'r 24 o Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn adrodd bod yr amser a gymerir i ddatrys achosion gorfodi yn amrywio'n sylweddol, yn Ffigur 33. Priodolir hyn i bresenoldeb (neu ddiffyg) swyddogion gorfodi yn yr Awdurdodau Cynllunio Lleol, a'r cymhlethdodau cymharol yn gysylltiedig â rhai achosion gorfodi.




**Ffigur 34 - Cymhariaeth o'r naill flwyddyn i'r nesaf o'r amser cyfartalog a gymerwyd i ddatrys achosion gorfodi, mewn diwrnodiau**

Dengys Ffigur 34 gynnydd o 34.6 o ddiwrnodiau yn yr amser cyfartalog a gymerwyd i ddatrys achosion gorfodi. Canlyniad tynnu timau gorfodi lleol yn ôl er mwyn ymdrin â phroblemau cyllidebu gwasanaethau yw hyn, ond gallai hefyd ddeillio'n rhannol o'r ffaith bod y set ddata yn fwy cyflawn, gan fod amryw o Awdurdodau Cynllunio Lleol heb ddarparu unrhyw ddata ar y dangosydd hwn yn y cyfnod adrodd blaenorol.

O ystyried y datganiadau gan nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yr oedd eu perfformiad yn waelach yn erbyn Dangosydd 18, rhagwelwn y bydd perfformiad yn y maes hwn yn gwella yn y flwyddyn sydd i ddod.

## 4 - DATBLYGU CYNALIADWY

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, i sicrhau datblygu cynaliadwy. Dyma sut mae'r Ddeddf yn diffinio datblygu cynaliadwy:

> *Ystyr “datblygu cynaliadwy” yw’r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.*

Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gorff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwythau.

Mae'r system gynllunio yn allweddol er mwyn gweithredu datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n galluogi'r fframwaith o ran deddfwriaeth a pholisi er mwyn defnyddio, rheoli a datblygu tir er budd y cyhoedd.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu cyfres o saith dangosydd allweddol sy'n anelu i ganfod sut mae'r system gynllunio yn cyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Dyma nhw:

- SD1 Adnewyddu’r Economi – Datblygu Economaidd
- SD2 Economi Carbon Isel – Ynni Adnewyddadwy
- SD3 Mynediad at Dai Gwell – Cartrefi Newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy)
- SD4 Gwrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd – Perygl Llifogydd
- SD5 Defnyddio Tir yn Effeithlon – Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol
- SP6 Mannau Agored – Mannau Agored a Gollir/Enillir
- SD7 Seilwaith Cymunedol – Cyfraniadau at Gyfleusterau Cymunedol

Caiff yr wybodaeth hon ei chasglu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ôl iddynt ystyried ceisiadau cynllunio, a'i chyflwyno bob chwarter. Fe'i defnyddir i gynnal dadansoddiad cronnus yn hytrach na chymharol.

Cyflwynodd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a ganlyn ddata cyflawn yn y cyfnod adrodd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

Cyflwynodd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a ganlyn gofnodion rhannol yn y cyfnod adrodd:

- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Dinas a Sir Abertawe


Ni chyflwynodd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a ganlyn unrhyw gofnodion yn y cyfnod adrodd:

- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

| Dangosydd | **SD1. Yr arwynebedd llawr (metrau sgwâr) ar gyfer datblygu economaidd newydd y rhoddwyd neu y gwrthodwyd caniatâd ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn.** |
|---|---|


**Caniatawyd (metrau sgwâr)**

| Perfformiad | 245,669.8 |
|---|---|




**Gwrthodwyd (metrau sgwâr)**

| Perfformiad | 26,432 |
|---|---|





Dylai'r system gynllunio gefnogi datblygu economaidd a chyfeirio datblygiadau o'r fath i'r lleoliadau mwyaf priodol. Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am gyfraniad y system gynllunio at ddarparu datblygu economaidd traddodiadol ar safleoedd cyflogaeth a bennwyd.

Er nad yw'r data ar gyfer 2015-16 yn gyflawn (ni chafwyd ymateb gan yr holl awdurdodau lleol), mae'n dangos bod yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a ddarparodd ddata wedi hwyluso datblygu economaidd ar 245,669 metr sgwâr o arwynebedd llawr newydd. Mae hyn yn adlewyrchu

pwysigrwydd cynllunio i ddarparu tir ar gyfer cyflogaeth a rôl cynlluniau datblygu wrth ddyrannu tir i'w ddatblygu i ddibenion economaidd. Mae'r ffigur hwn yn is na'r flwyddyn flaenorol pan ganiatawyd 251,615 metr sgwâr o arwynebedd llawr newydd ar gyfer datblygu economaidd. Mae'r Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn dangos nad oes fawr o fanteisio wedi bod ar dir cyflogaeth mewn rhai ardaloedd, hynny oherwydd y diffyg galw.


Cafodd cyfanswm o 26,432 metr sgwâr o arwynebedd llawr newydd ar gyfer datblygu economaidd ei wrthod yn 2015-16, o gymharu â'r 70 metr sgwâr a wrthodwyd yn y flwyddyn gynt.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **SD2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn.** |
| | **Caniatawyd (nifer y ceisiadau)** |
| **Perfformiad** | 268 |



**Caniatawyd (MW o ynni a gynhyrchir)**

| **Perfformiad** | 487.1 |
|---|---|




Mae'r system gynllunio yn gallu hwyluso cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae'r dangosydd hwn yn rhoi gwybodaeth am gyfraniad y system gynllunio at sicrhau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a symud at economi carbon isel.

Mae'r data'n dangos rôl y system gynllunio o ran hwyluso cymysgedd o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Yn benodol, mae'r data a ddarparwyd yn dangos bod nifer sylweddol o geisiadau cynllunio wedi'u caniatáu ar gyfer datblygiadau biomas, ynni'r gwynt ac ynni solar.

O'u gymharu â data y llynedd, cafwyd 88 o geisiadau cynllunio ychwanegol a rhoddwyd caniatâd cynllunio i gynhyrchu 113MW o ynni. Er y cafwyd gostyngiad mewn datblygiadau ynni dŵr, cafwyd cynnydd yn nifer y datblygiadau treulio anaerobig, ynni solar ac ynni'r gwynt a ganiatawyd.

Mae ymatebion yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn nodi sut y mae ffactorau na all y system gynllunio ddylanwadu arnyn nhw effeithio ar gyflenwi datblygiadau ynni adnewyddadwy. Mae'r cynnydd yn nifer y caniatadau eleni, yn enwedig ar gyfer ynni'r gwynt a solar, yn debygol o fod yn ganlyniad yn rhannol bod datblygwyr wedi gofyn am ganiatâd cynllunio cyn y newid a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r cymorthdaliadau ar gyfer ynni adnewyddadwy. Disgwylir y bydd data blwyddyn nesa'n ein helpu i ddeall effeithiau'r newid i'r cymhorthdal.


| Dangosydd | **SD3. Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn.** |
|---|---|

**Tai'r farchnad agored (nifer yr unedau)**

| **Perfformiad** | 8,763 |
|---|---|

**Tai fforddiadwy (nifer yr unedau)**

| **Perfformiad** | 2,039 |
|---|---|




Mae’r system gynllunio yn gallu hwyluso’r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy a thai’r farchnad agored i fodloni anghenion tai lleol. Mae’r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am gyfraniad y system gynllunio at ddarparu tai newydd.

Mae’r data’n dangos fod 10,802 o anheddau wedi cael caniatâd cynllunio.  Fodd bynnag, o gofio nad yw rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi darparu data, mae nifer yr anheddau sydd wedi cael eu cymeradwyo’n debygol o fod yn uwch.  O’r data a ddarparwyd, bu cynnydd o 2,462 o’i gymharu â llynedd.

Mae’r data’n dangos bod 2,039 o anheddau fforddiadwy (fel y’u diffinnir yn Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy) wedi cael caniatâd cynllunio. O’r holl anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt, roedd 19% yn dai fforddiadwy, sef tua’r un nifer â’r llynedd.

O gymharu’r data ag ystadegau ‘Darparu Tai Fforddiadwy yng Nghymru 2015/16’ Llywodraeth Cymru, er bod y ddwy set o ddata’n wahanol, maent yn dangos bod mwyafrif y tai fforddiadwy’n cael eu darparu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.  Mae ymatebion yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn codi problemau ynghylch hyfywedd ac ymddengys bod hyn yn cyfyngu ar lefel y tai fforddiadwy a sicrhawyd trwy ymrwymiadau ac amodau cynllunio.  Rydym wedi cyhoeddi gwaith ymchwil i hyfywedd llorweddol safleoedd tai yng Nghymru sy’n cadarnhau hynny.

Dylid nodi bod y data hyn yn ymwneud â nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer, nid y nifer a adeiladwyd, ac ni ellir eu cymharu â data ar gwblhau tai a gyhoeddir gan StatsCymru.


| Dangosydd | SD4. Nifer y ceisiadau am ganiatâd cynllunio i ddatblygu ar orlifdiroedd C1 a C2 a ganiatawyd ac a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn. |
|---|---|


**Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) NAD OEDDENT yn bodloni'r holl feini prawf yn TAN 15 y RHODDWYD caniatâd ar eu cyfer**

| Perfformiad | 23 o anheddau<br>(13.2 hectar o unedau amhreswyl) |
|---|---|

**Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) nad oeddent yn bodloni'r holl feini prawf yn TAN 15 y GWRTHODWYD caniatâd ar eu cyfer ar sail perygl o lifogydd**


| Perfformiad | 28 o anheddau<br>(28.9 hectar o unedau amhreswyl) |
|---|---|




**Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) a oedd yn BODLONI'R holl feini prawf yn TAN 15 y RHODDWYD caniatâd ar eu cyfer**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | 232 o anheddau<br>(1,813.5 hectar o unedau amhreswyl) |




Mae gan y system gynllunio ran bwysig yn y gwaith o sicrhau na fydd datblygiadau newydd yn agored i berygl o lifogydd os gellir osgoi hynny, a gall gyfeirio datblygiadau i leoliadau lle nad oes dim neu nemor ddim perygl o lifogydd. Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am y ffordd y mae ceisiadau cynllunio am ddatblygu ar orlifdiroedd yn cael eu rheoli.

Mae canlyniadau'r awdurdodau hynny a ddarparodd ddata yn dangos mai ychydig iawn o geisiadau am anheddau preswyl, nad oeddent yn bodloni meini prawf TAN 15, a gymeradwywyd mewn parthau llifogydd C1 ac C2 (cyfanswm o 23 o anheddau). Gwrthodwyd caniatâd ar gyfer 28 o anheddau arfaethedig eraill ar orlifdiroedd, ac mae hyn yn awgrymu bod polisi cynllunio yn effeithiol wrth annog datblygwyr i beidio â chyflwyno ceisiadau am gartrefi newydd mewn ardaloedd

lle ceir perygl mawr o lifogydd.  Cymeradwywyd cyfanswm o 232 o anheddau newydd ar orlifdiroedd lle bodlonwyd meini prawf TAN 15.

Mae'r rhan fwyaf o'r mathau o ddatblygiadau amhreswyl yn cael eu dynodi'n rhai llai agored i berygl o lifogydd yn TAN 15.  Cymeradwywyd datblygu ar bron 1800 hectar o dir lle'r oedd y meini prawf yn TAN 15 wedi'u bodloni. Dim ond ar 13 hectar y cymeradwywyd datblygu lle nad oedd y meini prawf hynny wedi'u bodloni.

O'u cymharu â data'r llynedd, cafodd 1,168 yn llai o anheddau eu cymeradwyo ar y gorlifdir.  Fodd bynnag, cymeradwywyd 7 yn fwy o anheddau nad oeddynt yn bodloni profion TAN 15.  Cafodd cynnydd o 1,660 o hectarau o dir ei gymeradwyo ar gyfer datblygiadau dibreswyl lle cafodd profion TAN 15 eu bodloni.  Gwelwyd 1 hectar yn llai o dir ei gymeradwyo ar gyfer datblygiadau dibreswyl lle na chafodd y profion eu bodloni.

Mae data 2014/15 a 2015/15 yn dangos bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cydnabod y risg o ganiatáu datblygu newydd mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd, a bod y cyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei dderbyn ym mwyafrif helaeth y penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio. Er hynny, mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod nifer bach o ddatblygiadau'n cael eu cymeradwyo o hyd sy'n groes i'r polisïau a'r meini prawf yn TAN 15.


| Dangosydd | SD5. Arwynebedd y tir (ha) lle rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen a thir maes glas yn ystod y flwyddyn. |
|---|---|

**Tir a ddatblygwyd o'r blaen (hectarau)**

| Perfformiad | 1,625.3 hectar |
|---|---|

**Tir maes glas (hectarau)**

| Perfformiad | 4,770.6 hectar |
|---|---|




Mae'r system gynllunio yn gallu sicrhau, lle bynnag y bo modd, mai tir a ddatblygwyd o'r blaen a ddefnyddir yn hytrach na safleoedd tir glas, yn enwedig y rheini sydd o werth amaethyddol neu ecolegol uchel. Mae'r dangosydd hwn yn dangos a yw'r system gynllunio yn cyfeirio datblygiadau newydd i dir a ddatblygwyd o'r blaen.

O'r data a ddarparwyd, ymddengys mai ar dir maes glas y cymeradwywyd datblygiadau newydd yn bennaf. Mae'r data'n dangos bod 74.6% o'r tir y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad newydd arno yn dir maes glas. Mae hyn yn wahanol iawn i ddata 2014/15, a ddangosai fod 84% o'r tir y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad newydd arno yn dir a ddatblygwyd o'r blaen. Efallai mai canlyniad dyrannu safleoedd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yw'r symudiad oddi wrth ddatblygu ar dir llwyd tuag at ddatblygu ar dir maes glas Fodd bynnag, mae'n debygol mai gwallau yn nata y flwyddyn flaenorol sydd wrth wraidd newid mor sylweddol. Mae angen nodi hefyd fod bylchau o hyd yn y data, a fydd yn effeithio ar lefel y datblygu a'r ymraniad rhwng tir maes glas a thir llwyd a gofnodir yn y data.

Mae ymatebion yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn nodi'r rhesymau canlynol pam mae cyfran fawr o ddatblygiadau'n cael eu cymeradwy ar dir maes glas:

- Diffyg cyfleoedd i ddatblygu ar dir sydd eisoes wedi'i ddatblygu, yn enwedig mewn awdurdodau gwledig;
- Dyrannu safleoedd maes gwyrdd strategol mawr mewn CDLlau; a
- Datblygiadau ynni adnewyddadwy, yn enwedig ffermydd solar, sy'n cymryd llawer o dir maes gwyrdd.


| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **SD6. Arwynebedd y mannau agored cyhoeddus (ha) a fyddai'n cael ei golli a'i ennill o ganlyniad i ddatblygu y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer yn ystod y chwarter blwyddyn.** |

**Mannau agored a gollir (hectarau)**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | 151.2 hectar |

**Mannau agored a enillir (hectarau)**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | 30.1 hectar |




Mae mannau agored yn darparu gwerth o ran hamdden, amwynder a'r amgylchedd yn ogystal â chyfrannu at amddiffyn rhag yr hinsawdd ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r dangosydd hwn yn mesur sut y mae'r system gynllunio'n diogelu mannau agored presennol ac yn hwyluso camau i ddarparu mannau agored newydd.

Mae'r data'n dangos, am yr awdurdodau cynllunio lleol a ddarparodd ddata, fod pum gwaith yn fwy o fannau agored wedi'i golli na'i ennill yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, gellir priodoli dros 143 hectar o gyfanswm y tir a gollwyd i un cais. Nid yw polisi cynllunio ond yn caniatáu colli mannau agored os ceir cyfleuster cyfwerth neu o ansawdd gwell i gymryd eu lle, neu lle nad oes angen y man agored mwyach. Adlewyrchir hyn yn ymatebion yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol, sy'n nodi ble mae mannau agored wedi'u colli. Mae wedi'i gwneud yn bosib gwella cyfleusterau mewn mannau eraill ar y safle. Mae'r ymatebion yn nodi bod problemau hyfywedd hefyd yn rhwystr i sicrhau mannau agored newydd. Mae cyfraniadau'n cael eu sicrhau i wella mannau agored sy'n bod eisoes yn hytrach na chreu mannau agored newydd.

Dylid nodi bod mwyafrif y mannau agored a gollwyd (144 o hectarau) yn ymwneud â ffigurau un Awdurdod Cynllunio Lleol a ddwedodd yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol y gallai'r data a ddarparwyd ganddynt fod yn anghywir gan nad ydynt yn cyfateb i waith monitro'u CDLl.


| Dangosydd | SD7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) ar gyfer darparu seilwaith cymunedol y cytunwyd arnynt wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd yn ystod y chwarter blwyddyn. |
|---|---|

**Enillwyd drwy gytundebau Adran 106 (£)**

| **Perfformiad** | £19,851,724 |
|---|---|

**Enillwyd drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (£)**

| **Perfformiad** | £1,108,167 |
|---|---|




Gellir defnyddio cyfraniadau ariannol i dalu am ddarparu seilwaith cymunedol sydd ei angen ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae'r dangosydd hwn yn mesur lefel y cyfraniadau ariannol y cytunwyd arnynt ar gyfer darparu seilwaith cymunedol.

Mae'r data'n dangos bod yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a ddarparodd ddatganiadau wedi sicrhau swm sylweddol o gyfraniadau ariannol i ariannu seilwaith cymunedol, drwy gytundebau Adran 106 yn bennaf.

O'u cymharu â data'r llynedd, gwelwyd cynnydd o £6,752,732 mewn Cytundebau Adran 106 a £645,021 mewn CIL.  Drwyddynt draw, cafwyd cynnydd o £7,402,753 mewn cyfraniadau ariannol

Roedd yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn dangos bod nifer o awdurdodau cynllunio lleol wedi mabwysiadu Ardoll Seilwaith Cymunedol yn ddiweddar, neu eu bod wrthi'n ei datblygu.

## 5 - CASGLIAD

Drwy gyfuniad o arloesi, cydweithio a phenderfyniad, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi llwyddo i wella perfformiad eu darpariaeth gwasanaeth mewn sawl maes dros y cyfnod adrodd, yn wyneb cyfyngiadau ariannol cynyddol.

Mae defnyddio Cytundebau Perfformiad Gwasanaeth a chytuno ar estyniadau wedi creu gwelliant amlwg yng nghymhareb y ceisiadau y gwneir penderfyniad yn eu cylch mewn pryd, ac wedi creu cyfleoedd i sicrhau adnoddau ychwanegol ar gyfer timau cynllunio lleol. Drwy ail-ddyrannu tasgau yn sgil ymadawiad aelodau o staff, llwyddwyd hefyd i gynnal lefel resymol o berfformiad yn y meysydd gwasanaeth hynny yn y tymor byr. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y mesur effeithlonrwydd hwn yn anghynaliadwy yn y tymor hir, a rhagwelir y bydd perfformiad yn gostwng rhyw fymryn yn y meysydd gwasanaeth dan sylw, yn sgil colli'r adnoddau hynny.

Mae gwaith diddorol yn parhau er mwyn sicrhau cydweithrediad agosach. Gallai hyn esgor ar ganlyniadau cadarnhaol yn ogystal ag opsiynau i gydweithio drwy drefniant mwy ffurfiol yn y dyfodol, yn enwedig yn rhanbarth Gogledd Cymru. Lle bo'r cydweithio hwn wedi'i ffurfiol, fel yn achos cydwasanaethau mwynau a gwastraff Sir y Fflint a Sir Gaerfyrddin, mae'n parhau i esgor ar ganlyniadau cadarnhaol.

Hyd y gellir rhagweld, gwyddom y bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn parhau i wynebu problemau sylweddol yn gysylltiedig â phrinder adnoddau a chydnerthedd, yn deillio o gyfyngiadau ar gyllidebau yn sgil toriadau. Mae'r heriau hyn yn debygol o gynyddu, o ganlyniad i gyfyngiadau parhaus ar gyllid y sector cyhoeddus, a hefyd yn sgil yr effaith ar yr economi oherwydd penderfyniad refferendwm y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae mwy o gydweithio yn cynnig cyfleoedd sylweddol am synergedd a mynediad at arbenigedd, ac i greu cydnerthedd ar draws Awdurdodau Cynllunio Lleol, a hefyd yn cynnig amrywiaeth o opsiynau o ran modelau cyflenwi gwasanaeth. Er bod y cynlluniau cydweithio a gafwyd hyd yma i'w croesawu, bydd angen ailddylunio gwasanaethau i raddau sylweddol er mwyn paru adnoddau sydd ar gael â dyheadau gwasanaethau.

Yn yr amgylchiadau hyn, lle bydd hi'n bwysicach nag erioed sicrhau y gall darpariaeth gwasanaethau cynllunio lleol barhau, bydd cydweithio'n agosach yn creu arbedion maint, yn atgyfnerthu gwasanaethau yn wyneb y galw amdanynt ac yn cynnig mynediad at arbenigedd. Mae'n bryd cael hyd i'r templed gorau ar gyfer cydweithio er mwyn cyflenwi gwasanaeth cynllunio, yn rhan o'r gwaith y mae yntau'n ei gyflawni ar raddfa ehangach i ranbartholi gwasanaethau Llywodraeth Leol.

**ATODIAD A** **TABL Y FFRAMWAITH PEFFORMIAD CYNLLUNIO - BLWYDDYN ARIANNOL 2015/16**

| DANGOSYDD | DDA | TEG | GWELLA | CYFARTALEDD CYMRU | Blaenau Gwent | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerffili | Caerdydd | Sir Gaerfyrddin | Ceredigion | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Ynys Môn | Merthyr Tydfil | Sir Fynwy | Castell-nedd Port Talbot | Casnewydd | Sir Benfro | Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | Powys | Rhondda Cynon Taf | Parc Cenedlaethol Eryri | Abertawe | Torfaen | Bro Morgannwg | Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwneud Cynlluniau** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| A oes Cynllun Datblygu cyfredol sydd o fewn cyfnod y cynllun? | Oes | | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Nac oes |
| Y gwyriad, wrth baratoi CDLl, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd. | <12 | 13-17 | 18+ | 47 | | | | | | | | | | | 16 | 84 | | | | | | | 24 | | | 36 | | 73 | |
| Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLl | Ie | | Na | | | Na | Ie | Ie | | | Ie | Ie | Ie | | | | Ie | Ie | | | Ie | Ie | | Ie | Ie | | Ie | | |
| Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd | 5+ | | <5 | 3.9 | 2 | 5.8 | 5.4 | 1.9 | 5.2 | 3.7 | 3.3 | 4 | 2.1 | 0 | 3.3 | 0 | 2.8 | 5 | 5.5 | 6.3 | 5 | 1.8 | 1.9 | 2.4 | 7 | 3 | 4.8 | 0 | 0 |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol | | | | 35<br>267 o 756 | 55<br>6 o 11 | 0<br>0 o 7 | 30<br>9 o 30 | 20<br>9 o 45 | 27<br>14 o 52 | 17<br>9 o 52 | 22<br>4 o 18 | 23<br>8 o 35 | 13<br>3 o 23 | 29<br>13 o 45 | 51<br>18 o 35 | 45<br>10 o 22 | 81<br>13 o 16 | 65<br>13 o 20 | 28<br>7 o 25 | 14<br>5 o 36 | 33<br>10 o 30 | 11<br>1 o 9 | 37<br>19 o 51 | 38<br>12 o 32 | 0<br>0 o 2 | 36<br>15 o 42 | 38<br>5 o 13 | 38<br>18 o 47 | 79<br>46 o 58 |
| Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau | | | | 212.7 | 267.0 | 196.0 | 270.0 | 169.8 | 266.0 | 268.0 | 412.0 | 160.8 | 189.3 | 178.0 | 231.3 | 152.3 | 107.8 | 120.5 | 368.5 | 229.0 | 144.3 | 203.5 | 146.3 | 345.8 | 265.0 | 197.0 | 144.0 | 140.0 | 180.0 |
| Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol | 80+ | 60.1-79.9 | <60 | 76.7<br>19361 o 25247 | 87.3<br>316 o 362 | 88.7<br>533 o 601 | 76.8<br>615 o 801 | 66.2<br>684 o 1034 | 74.7<br>2282 o 3053 | 70.4<br>1028 o 1461 | 63.9<br>553 o 865 | 77.7<br>621 o 799 | 71.8<br>647 o 901 | 77.3<br>928 o 1200 | 83.0<br>852 o 1026 | 69.6<br>596 o 856 | 96.9<br>373 o 385 | 79.4<br>862 o 1085 | 80.0<br>650 o 813 | 72.7<br>820 o 1128 | 78.1<br>774 o 991 | 71.8<br>377 o 525 | 58.6<br>653 o 1115 | 79.5<br>1064 o 1338 | 71.5<br>343 o 480 | 84.2<br>1554 o 1846 | 83.4<br>501 o 601 | 85.7<br>1003 o 1170 | 90.3<br>732 o 811 |
| Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau | <67 | 67-111 | 112+ | 77.2 | 61.0 | 66.5 | 59.7 | 105.3 | 79.0 | 92.8 | 116.5 | 74.0 | 71.5 | 72.3 | 60.0 | 85.5 | 48.3 | 67.8 | 66.5 | 75.5 | 91.8 | 61.3 | 138.3 | 74.0 | 84.0 | 61.3 | 64.3 | 66.7 | 94.2 |
| **Ansawdd** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Canran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt o dan bwerau datganoledig | | | | 93.1 | 89.8 | 91.7 | 91.4 | 91.4 | 97.0 | 94.1 | 91.2 | 92.9 | 93.1 | 95.0 | 90.9 | 88.4 | 92.5 | 93.7 | 97.5 | 94.9 | 93.3 | 91.6 | 91.2 | 91.0 | 93.5 | 96.7 | 92.7 | 95.4 | 78.3 |
| Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion | <5 | 5-9 | 9+ | 9.0<br>157 o 1737 | 10.8<br>4 o 37 | 8.0<br>4 o 50 | 1.4<br>1 o 69 | 7.9<br>7 o 89 | 1.1<br>1 o 91 | 10.5<br>9 o 86 | 50.0<br>38 o 76 | 5.3<br>3 o 57 | 32.3<br>20 o 62 | 11.7<br>7 o 60 | 14.0<br>13 o 93 | 1.0<br>1 o 99 | 0.0<br>0 o 29 | 1.5<br>1 o 68 | 15.0<br>3 o 20 | 5.3<br>3 o 57 | 6.1<br>4 o 66 | 4.5<br>2 o 44 | 5.1<br>5 o 98 | 14.2<br>17 o 120 | 16.1<br>5 o 31 | 9.8<br>6 o 61 | 0.0<br>0 o 44 | 0.0<br>0 o 54 | 1.7<br>3 o 176 |
| Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod | 66+ | 55.1-65.9 | <55 | 66.5<br>294 o 442 | 57.1<br>4 o 7 | 0.0<br>0 o 3 | 80.0<br>8 o 10 | 46.7<br>7 o 15 | 62.9<br>22 o 35 | 70.8<br>17 o 24 | 62.5<br>5 o 8 | 66.7<br>10 o 15 | 66.7<br>10 o 15 | 53.8<br>14 o 26 | 70.4<br>19 o 27 | 43.8<br>7 o 16 | 71.4<br>5 o 7 | 70.0<br>14 o 20 | 63.6<br>7 o 11 | 90.5<br>19 o 21 | 88.9<br>16 o 18 | 100.0<br>3 o 3 | 72.7<br>8 o 11 | 66.7<br>14 o 21 | 50.0<br>3 o 6 | 54.5<br>36 o 66 | 50.0<br>2 o 4 | 85.7<br>24 o 28 | 80.0<br>20 o 25 |
| Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd | 0 | 1 | 2+ | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| **Ymgysylltu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio? | Oes | | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes |
| A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd? | Oes | | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes |
| A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)? | Oes | Rhan-nol | Nac oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Rhannol | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Rhannol | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes |
| **Gorfodi** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio (penderfynwyd a oedd torri rheolau cynllunio wedi digwydd ac, os felly, penderfynwyd a oedd camau gorfodi yn addas) o fewn 84 diwrnod | | | | 79.4 | 91.8 | 88.6 | 87.9 | 95.1 | Dim Data | 63.0 | 91.8 | 100.0 | 80.0 | 78.3 | 88.5 | 89.3 | 100.0 | 100.0 | 97.7 | 92.2 | 37.4 | 78.2 | 26.4 | 92.6 | 98.9 | 32.4 | 99.1 | 90.8 | 100.0 |
| Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi | | | | 88.1 | 35.5 | 56.3 | 36.3 | 43.0 | Dim Data | 142.7 | 35.8 | 13.0 | 38.0 | 114.8 | 85.0 | 55.0 | 3.3 | 16.3 | 7.8 | 34.5 | 394.0 | 129.7 | 451.3 | Dim Data | 14.3 | 170.8 | 6.5 | 8.0 | 3.3 |
| Canran yr achosion gorfodi lle mae camau gorfodi'n cael eu cymryd neu y mae cais ôl-weithredol yn cael ei dderbyn o fewn 180 diwrnod o ddechrau'r achos (yn yr achosion hynny lle roedd gorfodi'n addas) | | | | 72.8 | 80.1 | 59.3 | 91.7 | 63.7 | 81.0 | 78.0 | 37.2 | 81.0 | 44.4 | 83.7 | 77.1 | 79.3 | 86.8 | 69.6 | 91.1 | 79.3 | 43.7 | 73.4 | 37.8 | 70.4 | 69.0 | 42.0 | 75.9 | 75.0 | 77.4 |
| Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi | | | | 210.1 | 103.0 | 372.3 | 68.0 | 238.5 | Dim Data | 141.8 | 311.3 | 194.0 | 510.0 | 114.8 | 149.3 | 130.3 | 89.0 | 142.8 | 59.8 | 151.3 | 439.5 | 332.3 | 520.8 | 112.7 | 312.0 | 272.3 | 177.5 | 163.7 | 78.1 |

**Atodiad B**

## Rhestr o ddolenni i Adroddiadau Perfformiad Blynyddol awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer 2015-16

Dyma restr o ddolenni i Adroddiadau Perfformiad Blynyddol pob awdurdod, lle bo'r adroddiadau hynny ar gael.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Dinas Caerdydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Dinas Casnewydd
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam